



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru:

**Rôl Gwasanaethau Cyfreithiol a'r  
Proffesiwn Cyfreithiol yn Economi Cymru**

# Cynwys

<b>Trosolwg</b>	1
Sector Gwasanaethau Cyfreithiol y DU	1
Trosolwg	1
Amrywiaeth yn y Proffesiwn Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr	3
Y Sector Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru	4
Trosolwg	4
Y Proffesiwn yng Nghymru	7
<hr/>	
<b>Prif Dueddiadau, Heriau a Chyfleoedd</b>	8
Tueddiadau yn y Diwydiant	8
Mynediad at Gyfiawnder a'r Proffesiwn	8
Y Farchnad Gyfreithiol	10
Arloesedd sydd wedi'i ysgogi gan dechnoleg	11
Brexit	14
Mynediad at Dalent	14
Pwysigrwydd Sector Cyfreithiol y DU ar ôl Brexit	14
Llywodraeth Cymru a Brexit	16
<hr/>	
<b>Addysg y Gyfraith a'r Proffesiwn Gwasanaethau Cyfreithiol</b>	17
<hr/>	
<b>Llywodraeth Cymru a Datblygu Economaidd</b>	22
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	22
Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol	22
Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi	23
Cysylltiadau â Strategaeth Llywodraeth y DU	24
Mewnfuddsoddi	24
Caffael	25
Cymorth Busnes a Buddsoddi Llywodraeth Cymru	26
Cyngor a Chymorth Busnes i fusnesau newydd a BBaChau	26
Cymorth Datblygu Busnes i Fusnesau Sefydledig	26
Atebion Eiddo	27
Cymorth i Fasnachu ac Allforio	27
Datblygu Sgiliau	28
Ymchwil, Datblygu ac Arloesi	32
Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth	33
Cyllid ar gyfer Twf	35
<hr/>	
<b>Casgliadau</b>	38

## Trosolwg

1. Cafodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (y Comisiwn) ei sefydlu gan Brif Weinidog Cymru i adolygu'r ffordd y mae'r system gyfiawnder yn gweithredu yng Nghymru a llunio gweledigaeth hirdymor ar gyfer ei dyfodol.

2. Mae'r cyflwyniad hwn o dystiolaeth ategol yn rhoi trosolwg o'r proffesiwn cyfreithiol, technoleg gyfreithiol ac economi Cymru, a'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cryfder a sefydlogrwydd y sector gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru ac yn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i ffyniant Cymru.

### Sector Gwasanaethau Cyfreithiol y DU

#### Trosolwg

3. Mae'r DU yn cynnwys tair awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân – Cymru a Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Mae gan y rhain eu systemau cyfreithiol, eu proffesiynau, eu cyfraith a'u llysoedd eu hunain, er bod y Goruchaf Lys yn cwmpasu'r Deyrnas Unedig gyfan.

4. Yn ôl yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, roedd 10,415 o gwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr wedi'u rheoleiddio ganddo yn 2015/16, y mae 550 ohonynt wedi mabwysiadu strwythur busnes amgen<sup>1</sup>. Mae'n dweud bod 139,313 o gyfreithwyr sy'n ymarfer a 39,027 o unigolion nad ydynt yn ymarfer ar y gofrestr o gyfreithwyr<sup>2</sup>. Mae Cyngor y Bar yng Nghymru a Lloegr yn dweud bod 16,005 o fargyfreithwyr yn ymarfer yng Nghymru a Lloegr<sup>3</sup>. Mae ymarferwyr cyfreithiol yn gweithio mewn practis preifat ac yn fewnol mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys adrannau o'r llywodraeth, cwmnïau

gwasanaethau proffesiynol a busnesau eraill drwy'r economi gyfan.

5. Mae Cymdeithas Cyfreithwyr yr Alban yn dweud bod 11,761 o aelodau sy'n gyfreithwyr sy'n ymarfer a 2,242 o gyfreithwyr nad ydynt yn ymarfer ar y gofrestr yn 2016/17<sup>4</sup>, ac mae Cymdeithas Cyfreithwyr Gogledd Iwerddon yn dweud bod dros 2,300 o gyfreithwyr yn ymarfer y gyfraith ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon<sup>5</sup>.

6. Mae *Legal Services Forecast 2017-2025*<sup>6</sup> Cymdeithas y Cyfreithwyr yn awgrymu, yn y tymor hwy, ei bod yn debygol y bydd awtomeiddio swyddogaethau gwasanaethau cyfreithiol yn effeithio'n gynyddol ar nifer y swyddi yn y sector gwasanaethau cyfreithiol.

7. Cyfraith Cymru a Lloegr yw'r dewis mwyaf poblogaidd o gyfraith yn y byd ar gyfer contractau masnachol, gan lywodraethu 40% o holl gyflafareddiadau corfforaethol y byd. Mae adroddiad 2017. *TheCityUK Legal Excellence Internationally Renowned*<sup>7</sup> yn dweud mai'r DU yw'r ganolfan fwyaf blaenllaw yn y byd ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol rhyngwladol a datrys anghydfodau, yn ogystal â bod yn ganolfan bwysig ar gyfer addysg a hyfforddiant yn y gyfraith.

8. Mae Llundain yn adnabyddus am fod yn ganolfan fyd-eang ar gyfer cyllid, busnes rhyngwladol a datrys anghydfodau. Mae'r ddinas yn dwyn ynghyd arbenigedd cyfreithiol o ddechrau proses hyd at ei diwedd sy'n cwmpasu gwasanaethau cynghori er mwyn gwneud trafodion busnes yn ddidrafferth, yn ogystal â sgiliau mewn gwahanol fathau o ddatrys anghydfodau pe bai problemau'n codi.

<sup>1</sup> Strwythur Busnes Amgen yw cwmni lle mae unigolyn nad yw'n gyfreithiwr: yn rheoli'r cwmni, neu sydd â buddiant tebyg i berchenogaeth yn y cwmni. Gall cwmni hefyd fod yn strwythur busnes amgen lle mae corff arall yn rheoli'r cwmni, neu y mae ganddo fuddiant tebyg i berchenogaeth yn y cwmni ac mae o leiaf 10 y cant o'r corff hwnnw yn cael ei reoli gan unigolion nad ydynt yn gyfreithwyr.

<https://www.lawsociety.org.uk/support-services/advice/practice-notes/archive/alternative-business-structures/4-may-2011/#abs2>

<sup>2</sup> Adolygiad Blynnyddol 2015/16 yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (cyhoeddwyd Mehefin 2017) <https://sra.org.uk/sra/news/press/annual-review-2015-2016.page>

<sup>3</sup> Cyngor y Bar yng Nghymru a Lloegr, Adolygiad Blynnyddol 2016/2017, <https://www.barcouncil.online/the-annual-report-in-numbers/>

<sup>4</sup> Adroddiad Blynnyddol 2017 Cymdeithas Cyfreithwyr yr Alban <https://www.lawscot.org.uk/about-us/strategy-reports-plans/annual-reports/annual-report-2017/grow/>

<sup>5</sup> Cymdeithas Cyfreithwyr Gogledd Iwerddon <https://www.lawsoc-ni.org/about-us>

<sup>6</sup> *Legal Services Forecast 2017-2025*, Cymdeithas y Cyfreithwyr, 2017 <http://www.lawsociety.org.uk/Support-services/Research-trends/legal-services-sector-forecasts-2017-25/>

<sup>7</sup> *TheCityUK 'Legal Excellence Internationally Renowned: UK Legal Services 2017'* <https://www.thecityuk.com/assets/2017/Reports-PDF/Legal-excellence-internationally-renowned-Legal-services-2017.pdf>

9. Mae busnes y gyfraith yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i economi gyffredinol y DU. Canfu adroddiad 2017 TheCityUK hefyd fod gwasanaethau cyfreithiol yn cyflogi tua 311,000 o bobl, y mae dau o bob tri ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i Lundain. Roedd prif ganolfannau cyflogaeth gwasanaethau cyfreithiol yn cynnwys Manceinion (gyda 12,000 mewn cyflogaeth), Birmingham a Leeds (8,000 yr un), a Bryste (7,000). Mae'r swyddi hyn yn rhai hyfedr gyda chlystyrau o arbenigedd sy'n denu buddsoddiad ac yn ysgogi twf<sup>8</sup>.

10. Mae nifer o gwmnïau blaenllaw wedi sefydlu gweithrediadau mewn dinasoedd y tu allan i Lundain.

Allen & Overy, Baker McKenzie a Herbert Smith Freehills yn Belfast; Hogan Lovells yn Birmingham; Ashurst yn Glasgow; DLA Piper yn Leeds (yr unig gwmmni Cylch Hud y mae ei bencadlys y tu allan i Lundain); a Berwin Leighton Paisner, Freshfields Bruckhaus Deringer a Latham & Watkins ym Manceinion.

11. Er bod llawer o'r gweithrediadau hyn wedi canolbwyntio ar gymorth swyddfa gefn a gwaith cyfreithiol wedi'i nwyddoleiddio i ddechrau, mae llawer o gwmnïau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Lundain bellach yn ehangu eu cwmpas i gynnwys amrywiaeth o weithgarwch cyfreithiol cynyddol gymhleth.

Rhanbarth	Cyflogaeth mewn Gwasanaethau Cyfreithiol (2015)	GYG Gwasanaethau Cyfreithiol (£bn, 2015)
Llundain	100,000	8.5
Gogledd-orllewin Lloegr	40,000	1.9
De-ddwyrain Lloegr	33,000	3.8
De-orllewin Lloegr		1.6
Swydd Efrog a Humber	22,000	1.1
Yr Alban	19,000	1.5
Cymru	16,000	0.4
Dwyrain Lloegr	15,000	2.3
Dwyrain Canolbarth Lloegr	15,000	0.9
Gogledd Iwerddon	6,000	0.25
Gogledd-ddwyrain Lloegr	6,000	0.46
<b>Y DU</b>	<b>311,000</b>	<b>24.1</b>

Ffigur 1: Cyfraniad cyflogaeth a GYG gwasanaethau cyfreithiol yn y DU (TheCityUK, 2017)<sup>9</sup>

12. Yn ogystal â'i buddiannau uniongyrchol drwy ei gyflogaeth a'i effaith ar yr economi, mae amgylchedd cyfreithiol sefydlog yn cyfrannu at sefyllfa lle mae'r DU yn un o'r gwledydd hawsaf yn y byd i gynnal busnes. Mae *Ease of Doing Business Index*<sup>10</sup>

Banc y Byd yn rhoi'r DU yn safle 7 o blith 190 o wledydd. Mae safle uchel o ran hwylustod cynnal busnes yn awgrymu bod yr amgylchedd rheoleiddiol yn fwy ffafriol i ddechrau a gweithredu cwmni lleol.

<sup>8</sup> Mae Adolygiad 2017 TheCityUK o Wasanaethau Cyfreithiol yn seiliedig ar ddata'r SYG o 2015, ac nid yw'n ystyried datganiadau ystadegol mwy diweddar gan y SYG.

<sup>9</sup> TheCityUK 'Legal Excellence Internationally Renowned: UK Legal Services 2017' <https://www.thecityuk.com/assets/2017/Reports-PDF/Legal-excellence-internationally-renowned-Legal-services-2017.pdf> Mae ffigurau yn seiliedig ar ddatganiadau ystadegol y SYG am GYG yn 2015

<sup>10</sup> Safleoedd Cynnal Busnes Banc y Byd, 2017 <http://www.doingbusiness.org/rankings>

13. Mae Llysoedd Busnes ac Eiddo y DU yn Llundain, Manceinion, Birmingham, Leeds, Bryste a Chaerdydd yn sicrhau bod busnesau rhyngwladol a domestig fel ei gilydd yn cael cymorth da i ddatrys anghydfodau mewn meysydd megis gwasanaethau ariannol, eiddo deallusol, technoleg a'r diwydiant adeiladu. Cafodd y Llysoedd hyn eu datblygu i ddiwallu anghenion busnesau rhyngwladol sy'n gweithredu ar draws sectorau diwydiannol. Maent yn cynnwys:

- y Rhestr Ariannol
- y Llys Masnachol (fforwm mwyaf blaenllaw'r byd ar gyfer datrys anghydfodau ym maes masnach ryngwladol, llongau ac yswiriant)
- y Rhestr Ansoffedd a Chwmnïau (sydd wedi ymdrin â rhai o'r achosion rhyngwladol mwyaf o ail-greu cwmnïau ac ansolfedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf)
- y Rhestr Eiddo Deallusol (un o'r fforymau mwyaf poblogaidd yn Ewrop ar gyfer Patentau, Nodau Masnach ac Eiddo Deallusol)
- y Rhestr Busnes yn yr Adran Siawnsri
- y Llys Technoleg ac Adeiladu (sy'n ymdrin ag anghydfodau sy'n deillio o brosiectau adeiladu a pheirianneg yn y DU ac yn rhyngwladol, ynghyd ag anghydfodau ym maes TG a chaffael).

### **Amrywiaeth yn y Proffesiwn Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr**

14. Canfu adroddiad yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr *Mapping advantages and disadvantages: Diversity in the legal profession in England and Wales*<sup>11</sup> er bod y proffesiwn cyfreithiol wedi dod yn fwy cynrychioliadol yn gyffredinol o'r boblogaeth dros yr ugain mlynedd diwethaf, gyda mwy o fenywod a grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn ymuno ag ef, fod y proffesiwn yn dal wedi'i rannu'n haenau amlwg

yn ôl dosbarth, rhyw ac ethnigrwydd. Canfu hefyd fod menywod yn llai tebygol o weithio mewn uwch rolau yng nghwmnïau cyfreithwyr mawr dinas Llundain a meysydd incwm uchel o'r proffesiwn, ac mae menywod o leiafrifoedd ethnig yn wynebu anfantaes ddwbl.

15. Mae'r prif dueddiadau a nodwyd yn adroddiad yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr fel a ganlyn:

- Ym mhob grŵp ethnig, mae dynion yn fwy tebygol o ddod yn bartner o gymharu â menywod o'r un grŵp ethnig.
- Mae cyfran y dynion BAME sy'n dod yn bartner, yn enwedig y rhai o darddiad Asiaidd, wedi cynyddu'n sylweddol.
- Mae cyfran y dynion gwyn sy'n dod yn bartner wedi gostwng.
- Mae cyfran gynyddol o gyfreithwyr yn gadael practis preifat i weithio'n fewnol yn y sector cyhoeddus. Mae'r duedd hon yn fwy amlwg ymhlith menywod a menywod gwyn yn benodol. At hynny, mae'r gyfran is o ddynion sy'n gyfreithwyr mewnol yn cyfateb i'r cynnydd yn nifer y cyfreithwyr BAME benywaidd sy'n symud i swyddi mewnol, yn enwedig rhai o darddiad Asiaidd.

16. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Bwrdd Safonau'r Bar ddau ddarn newydd o ymchwil i roi sylfaen dystiolaeth ansoddol a meintiol er mwyn llywio'r syniadaeth gyfredol ar hyfforddiant bargyfreithwyr yn y dyfodol. Nododd y cyntaf, *Barriers to training for the Bar: a qualitative study*<sup>12</sup> ganfyddiadau fod y Bar yn faes penodol i grŵp breintiedig ac elît, sy'n fwy hygyrch i ddynion gwyn o gefndir addysgol elît. Nodwyd hefyd ddiffyg mynediad at wybodaeth gywir ynglŷn â hyfforddiant ar gyfer y Bar, costau ariannol hyfforddiant a mynediad at gyllid.

<sup>11</sup> Mapping advantages and disadvantages: Diversity in the legal profession in England and Wales <http://sra.org.uk/documents/SRA/research/diversity-legal-profession.pdf>

<sup>12</sup> Barriers to training for the Bar: a qualitative study, 2017 [http://www.barstandardsboard.org.uk/media/1910425/barriers\\_to\\_training\\_for\\_the\\_bar\\_research.pdf](http://www.barstandardsboard.org.uk/media/1910425/barriers_to_training_for_the_bar_research.pdf)

17. Mae'r ail adroddiad, *Exploring differential attainment at BPTC and Pupillage*<sup>13</sup>, yn rhoi dadansoddiad meintiol o ddata cyfunol, lefel uchel mewn perthynas â pherfformiad myfyrwyr ar Gwrs Hyfforddiant Proffesiynol gorfodol y Bar (BPTC) a symud ymlaen i'r cam olaf o'r hyfforddiant, a elwir yn dymor prawf. Mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod gan ethnigrwydd werth rhagfynegol sylweddol ar gyfer sgoriau modiwlau cyfartalog y BPTC, a bod gan ethnigrwydd a statws economaidd-gymdeithasol werth rhagfynegol sylweddol o ran llwyddo i gael tymor prawf.

18. Mae Adroddiad Blynyddol 2016/2017 Cyngor y Bar yn nodi bod 64% o'i 16,005 o aelodau yn ddynion, a bod 36% yn fenywod. Mae 12,726 o'i aelodau yn hunangyflogedig, mae 2,898 yn gyflogedig, mae 370 mewn swydd ddeuol ac mae 5,840 wedi'u cofrestru ar gyfer mynediad cyhoeddus<sup>14</sup>.

## Y Sector Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru

### Trosolwg

19. Er nad oes system gyfreithiol ar wahân yng Nghymru, mae amrywiol bwerau wedi cael eu datganoli (a roddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cymru 2017). Er mwyn i yngor cyfreithiol gael ei roi'n effeithiol dylid gwneud hynny o safbwynt cyfraith ddatganoledig Cymru. Mae hyn nid yn unig yn gymwys i gleientiaid lleol sy'n cynnal busnes yng Nghymru ond hefyd yn aml i endidau yn Lloegr yn eu hymwneud â busnesau a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru.

20. Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Gofrestr Busnes Ryngadranno<sup>15</sup> (IDBR) yn nodi bod 950 o fusnesau yn y proffesiwn cyfreithiol<sup>16</sup>, gyda 10,245 o gyflogeion a throsiant o £1m<sup>17</sup>.

21. Y Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chyfrifyddu<sup>18</sup> yng Nghymru yw £725m<sup>19</sup>, gydag enillion gros canolrifol wythnosol o £402.60<sup>20</sup>.

22. Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn dadansoddi nifer y cyfreithwyr a chwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru a'u trosiant:

	Prif Swyddfeydd (Cyfanswm, gan gynnwys Cyrff Trwyddedig)	Prif Swyddfeydd Cyrff Trwyddedig	Cyfreithwyr sy'n Ymarfer	Trosiant
2015	453	16	3,713	£370m
2016	444	23	3,612	£380m
2017	438	26	3,778	£397m

Ffigur 2: Cwmnïau Cyfreithwyr a Chyfreithwyr sy'n Ymarfer yng Nghymru, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr<sup>21</sup>

<sup>13</sup> Exploring differential attainment at BPTC and Pupillage [http://www.barstandardsboard.org.uk/media/1910429/differential\\_attainment\\_at\\_bptc\\_and\\_pupillage\\_analysis.pdf](http://www.barstandardsboard.org.uk/media/1910429/differential_attainment_at_bptc_and_pupillage_analysis.pdf)

<sup>14</sup> Cyngor y Bar yng Nghymru a Lloegr, Adolygiad Blynyddol 2016/2017, <https://www.barcouncilonline.com/the-annual-report-in-numbers/>

<sup>15</sup> Y Gofrestr Busnes Ryngadranno (IDBR) <https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/paidservices/interdepartmentalbusinessregisteridbr>

<sup>16</sup> Y proffesiwn cyfreithiol wedi'i ddiffinio fel SIC2007 691, 2017

<sup>17</sup> Mae data cyflogaeth yn cael eu talgrynnu i'r pump agosaf ac mae data trosiant yn cael eu talgrynnu i'r filiwn agosaf

<sup>18</sup> Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfrifyddu (SIC2007 69) yw'r lefel sector isaf sydd ar gael ar gyfer y ffynonellau hyn

<sup>19</sup> Ystadegau GYG, SYG, 2016 <https://www.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva>

<sup>20</sup> Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, SYG, 2017 <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours>

<sup>21</sup> Ystadegau wedi'u darparu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ar 15 Mai 2018

23. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod 17 o Strwythurau Busnes Amgen yng Nghymru yn 2015<sup>22</sup>. Mae Adolygiad Blynyddol 2017 yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn dweud bod tua 4% o brif swyddfeydd cwmnïau cyfreithwyr wedi'u lleoli yng Nghymru, ond bod gan lai nag 1% o gwmnïau strwythur busnes amgen brif swyddfa yng Nghymru<sup>23</sup>.

24. Mae UK Legal 500 yn nodi bod y cwmnïau cyfreithwyr masnachol mawr yng Nghymru wedi'u

lleoli ar hyd coridor yr M4 o Gasnewydd yn y dwyrain i Abertawe yn y gorllewin, gyda'r hwb masnachol yng Nghaerdydd. Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud, oherwydd cysylltiadau trafndiaeth gwael, fod Caerdydd, yn aml, yn anghyfleus i gleientiaid yn y canolbarth a'r gogledd; mae cleientiaid na allant ddod o hyd i gymorth gan gwmnïau lleol yn yr ardaloedd hyn yn tueddu i gyfarwyddo cwmnïau yn Lloegr<sup>24</sup>. Mae hyn yn batrwm cyffredin o weithgarwch economaidd ac nid yw'n benodol i'r sector cyfreithiol.

Enw Cwmni	Cangen neu Brif Swyddfa	Lleoliad y Swyddfa	Safle UK200	Trosiant (£m)
Eversheds *ffigurau cyn uno â Sutherland	Cangen	Caerdydd	13	438.6
DAC Beachcroft	Cangen	Caerdydd	22	207.0
BLM	Cangen	Caerdydd	37	104.1
Blake Morgan LLP	Cangen	Caerdydd	50	74.5
Lewis Silkin LLP	Cangen	Caerdydd	63	44.9
Clarke Wilmott LLP	Cangen	Caerdydd	65	43.2
Hugh James	Prif Swyddfa	Caerdydd	75	37.0
Simpson Millar LLP	Cangen	Caerdydd	83	32.5
Geldards LLP	Prif Swyddfa	Caerdydd	101	24.0
Gordon Dadds	Cangen	Caerdydd	102	23.2
Radcliffes LeBrasseur	Cangen	Caerdydd	127	17.0

Ffigur 3: The Lawyer – 200 cwmni cyfreithwyr gorau'r DU 2017 yn ôl referniw – cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru<sup>25</sup>

25. O ran ei gwmpas cenedlaethol a byd-eang cyffredinol, Eversheds Sutherland (International) LLP<sup>26</sup> yw'r cwmni mwyaf blaenllaw. Er ei fod yn ymdrin â chryn dipyn o waith lleol, mae llawer o'i gyfarwyddiadau yn deillio o Loegr ac yn rhyngwladol.

Mae ei swyddfa yng Nghaerdydd yn canolbwyntio ar ynni ac addysg, ymhlith pethau eraill. Mae hefyd yn gartref i grŵp ymchwiliadau'r cwmni sy'n adnabyddus yn genedlaethol.

<sup>22</sup> Ffeithlun Cymru Cymdeithas y Cyfreithwyr <http://www.lawsociety.org.uk/Policy-campaigns/Work-in-Wales/documents/The-solicitors-profession-in-wales-fact-sheet>

<sup>23</sup> Adolygiad Blynyddol 2015/16 yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (cyhoeddwyd Mehefin 2017) <https://sra.org.uk/sra/news/press/annual-review-2015-2016.page>

<sup>24</sup> UK Legal500 Wales <http://www.legal500.com/c/wales/overview>

<sup>25</sup> 200 Cwmni Cyfreithwyr Gorau y DU 2017 yn ôl referniw The Lawyer – y rhestr lawn yn <https://www.thelawyer.com/top-200-uk-law-firms/>

<sup>26</sup> Eversheds Sutherland <http://www.eversheds-sutherland.com/global/en/where/europe/uk/offices/cardiff.page>

26. Er bod y rhan fwyaf o'r cwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru yn rhai cynhenid, mae nifer o gwmnïau o Loegr, gan gynnwys Clarke Willmott LLP<sup>27</sup> a Lewis Silkin LLP<sup>28</sup> wedi sefydlu swyddfeydd yng Nghaerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd llawer o gwmnïau gwasanaethau ariannol a phroffesiynol mai mynediad hawdd at dalent graddedigion a sylfaen gost is oedd y ffactor hollbwysig yn eu penderfyniad i sefydlu gweithrediadau yng Nghymru.

27. Dywedodd adborth o ddarpar fewnffuddsoddw'r diwydiant gwasanaethau cyfreithiol yn 2017 fod cymuned gyfreithiol Cymru, cysylltiadau cryf â'r brifysgol a chymuned gwasanaethau busnes cadarn yn gryfderau, ond penderfynodd beidio â sefydlu gweithrediadau yng Nghymru oherwydd pryderon ynglŷn â dyfnder y dalent gyfreithiol yn y farchnad (yn enwedig cyfreithwyr â phum mlynedd o brofiad ôl-gymhwys), y cysylltiadau presennol rhwng Caerdydd a Llundain, a ph'un a fyddai diddymu tollau pontydd Hafren ar ddiwedd 2018 yn arwain at golli talent gyda mwy o gystadleuaeth gan gwmnïau ym Mryste yn chwilio am yr un gweithwyr medrus<sup>29</sup>.

### **Cyrrff a Rhwydweithiau yng Nghymru**

28. Mae Swyddfa Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae'r swyddfa yn cynrychioli barn a buddiannau'r Gymdeithas i Lywodraeth Cymru, San Steffan a Brwsel. Y materion cyfredol a nodwyd gan y Gymdeithas yw newidiadau i gymorth cyfreithiol, y broses ddeddfu yng Nghymru, a chyfraniad y sector cyfreithiol i economi Cymru<sup>30</sup>.

29. Mae gan Sefydliad Cymru'r Gyfraith<sup>31</sup> aelodaeth sy'n cynrychioli'r farnwriaeth, y Cwnsler Cyffredinol, ysgolion y gyfraith, gwasanaethau cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd, Gwasanaeth Erllyn y Goron, Bar Cymru a Chaer, Cymdeithas y Cyfreithwyr, Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol, siambrau bargyfreithwyr a phractisau cyfreithwyr. Mae'r Sefydliad yn cynnig fforwm ar gyfer trafod a llunio safbwyntiau a chynigion i weithredu ar faterion sy'n effeithio ar weinyddu cyfiawnder, addysgu'r gyfraith ac ymchwilio i'r gyfraith, a darparu gwasanaethau cyfreithiol fel y maent yn effeithio ar Gymru.

30. Cyfraith Gyhoeddus Cymru<sup>32</sup> yw'r Gymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru. Nod y Gymdeithas yw hyrwyddo gweithgarwch trafod, addysg ac ymchwil sy'n ymwneud â chyfraith gyhoeddus a hawliau dynol yng Nghymru, a hyrwyddo arbenigedd ymhlith cyfreithwyr sy'n ymarfer yng Nghymru ym meysydd cyfraith gyhoeddus a hawliau dynol.

31. Rhwydwaith Cyfreithiol Cymru<sup>33</sup> yw'r unig wasanaeth atgyfeirio a chymorth cyfreithiol penodol yng Nghymru, a weithredir gan Hugh James ac a lansiwyd ym mis Chwefror 2014, ar ôl i Slater & Gordon gaffael Pannone Solicitors LLP a sefydlodd y rhwydwaith gwreiddiol. Mae Hugh James wedi bod yn gwmni hwb ar gyfer rhwydwaith tebyg ers 2007 ac mae wedi gweithio'n llwyddiannus gyda thua 170 o gwmnïau yn y de, y gorllewin a'r canolbarth.

32. Mae Cymru'r Gyfraith<sup>34</sup> yn darparu deunydd a sylwadau esboniadol ar drefniadau cyfansoddiadol a chyfraith Cymru. Cafodd ei ddatblygu ochr yn ochr â Westlaw UK ac mae'n rhoi gwybodaeth am drefniadau cyfansoddiadol Cymru a'r gyfraith a wneir yng Nghymru.

<sup>27</sup> Clarke Willmott <https://www.cardiff-times.co.uk/clarke-willmott-invests-in-cardiff-office/>

<sup>28</sup> Lewis Silkin <http://www.pavilionlegal.com/news/latest-news/lewis-silkin-to-open-cardiff-base-with-welsh-government-backing.html>

<sup>29</sup> Adborth a roddwyd i swyddogion Llywodraeth Cymru yn 2017, ni ddatgelwyd pw y oedd y darpar ffuddsoddw'r am resymau cyfrinachedd masnachol.

<sup>30</sup> Cymdeithas y Cyfreithwyr <http://www.lawsociety.org.uk/policy-campaigns/work-in-wales/>

<sup>31</sup> Sefydliad Cymru'r Gyfraith <http://www.legalwales.org/index.html>

<sup>32</sup> Cyfraith Gyhoeddus Cymru <http://www.legalwales.org/public-law-wales.php>

<sup>33</sup> Rhwydwaith Cyfreithiol Cymru <https://www.hughjames.com/about-us/legal-network-wales/>

<sup>34</sup> Law Wales <http://law.gov.wales/?lang=cy>



## Y Proffesiwn yng Nghymru

33. Yn ôl *Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth y SYG* mae nifer y cyflogeion sy'n cyflawni gweithgareddau cyfreithiol yng Nghymru wedi gostwng rhwng 2015 a 2016, er bod y niferoedd yn y DU yn ei chyfanwydd wedi cynyddu.<sup>35</sup>

Nifer y Cyflogeion sy'n cyflawni gweithgareddau cyfreithiol	2015	2016
Y DU	263,000	293,000
Cymru	13,000	9,000

Ffigur 3: *Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth 2017 y SYG*

34. Gwnaeth nifer y cyfreithwyr sy'n ymarfer, cyfreithwyr Ewropeaidd cofrestredig a chyfreithwyr tramor cofrestredig yng Nghymru leihau ychydig yn 2016 ac yna gynyddu 2017. Mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith cyfreithwyr sy'n ymarfer, cyfreithwyr Ewropeaidd cofrestredig a chyfreithwyr tramor cofrestredig yng Nghymru uwchlaw 50%, ond mae nifer y menywod sy'n bartner neu mewn swydd gyfatebol yn llawer is.

	Menywod		Dynion		Cyfanswm hysbys	Cyfanswm anhysbys	Cyfanswm
	Nifer	% y cyfanswm hysbys	Nifer	% y cyfanswm hysbys			
2015	1,885	51%	1,809	49%	3,694	19	3,713
2016	1,871	52%	1,722	48%	3,593	19	3,612
2017	1,996	53%	1,756	46%	3,752	26	3,778

Ffigur 4: *Dadansoddiad yn ôl rhyw ar gyfer cyfanswm y Cyfreithwyr sy'n ymarfer, Cyfreithwyr Ewropeaidd Cofrestredig a Chyfreithwyr Tramor Cofrestredig yng Nghymru, y Gymdeithas Rheoleiddio Cyfreithwyr*<sup>36</sup>

	Menywod		Dynion		Cyfanswm hysbys	Cyfanswm anhysbys	Cyfanswm
	Nifer	% y cyfanswm hysbys	Nifer	% y cyfanswm hysbys			
2015	365	32%	780	68%	1,145	0	1,145
2016	364	33%	749	67%	1,113	0	1,113
2017	370	34%	730	66%	1,100	0	1,100

Ffigur 5: *Dadansoddiad yn ôl rhyw ar gyfer cyfanswm y Cyfreithwyr sy'n ymarfer, Cyfreithwyr Ewropeaidd Cofrestredig a Chyfreithwyr Tramor Cofrestredig sy'n bartner neu mewn swydd gyfatebol yng Nghymru, y Gymdeithas Rheoleiddio Cyfreithwyr*<sup>37</sup>

<sup>35</sup> Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth y DU, 691: Gweithgareddau Cyfreithiol, ystadegau gan Nomis a gyrchwyd ar 11 Mai 2018 <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/businessregisterandemploymentsurveybresprovisionalresults/previousReleases>

<sup>36</sup> Ystadegau wedi'u darparu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ar 15 Mai 2018.

<sup>37</sup> Ystadegau wedi'u darparu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ar 15 Mai 2018.

Pennir lleoliad Cyfreithwyr sy'n ymarfer, Cyfreithwyr Ewropeaidd Cofrestredig a Chyfreithwyr Tramor Cofrestredig yn ôl cyfeiriad prif swyddfa practis unigolion, neu rhoddur eu prif gyfeiriad. Felly, amcangyfrif yw'r ffigurau hyn oherwydd gweithio trawsffiniol.

## Prif Dueddiadau, Heriau a Chyfleoedd

35. Drwy gysylltiadau Llywodraeth Cymru â'r diwydiant gwasanaethau (yng Nghymru a thu hwnt), cyrff rheoleiddio, a chymdeithasau masnach, rydym wedi nodi nifer o dueddiadau sy'n benodol i'r diwydiant a thueddiadau macro-economaid ehangach yn fyd-eang y rhagwelir y byddant yn cael effaith ar y proffesiwn cyfreithiol, a thueddiadau sydd eisoes yn effeithio ar y diwydiant.

### Tueddiadau yn y Diwydiant

#### Mynediad at Gyfiawnder a'r Proffesiwn

##### Cymorth Cyfreithiol

36. Mae cymorth cyfreithiol yn rhoi arian a chymorth cyfreithiol i'r rhai na allant fforddio talu cyfreithiwr i roi cyngor cyfreithiol iddynt na'u cynrychioli yn y llys. Fe'i sefydlwyd yn gyntaf yn 1949 yng Nghymru a Lloegr ar yr un pryd ag y sefydlwyd y GIG a diwygio lles.

37. Ar 1 Ebrill 2013, o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012<sup>38</sup> newidiwyd y meini prawf cymhwyso ar gyfer mynediad at gymorth cyfreithiol mewn llawer o feysydd cyfreithiol, gan gynnwys ysgariad, gwarchodaeth plant, esgeuluster clinigol, lles, cyflogaeth, mewnfudo, tai, dyled, budd-daliadau ac addysg.

38. Cyflwynwyd memorandwm ar ôl deddfu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar 30 Hydref 2017<sup>39</sup>. Mae'r memorandwm yn nodi bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwmo i gynnal adolygiadau ôl-weithredu ar gyfer amrywiol bolisiau a geir yn Rhannau 1 a 2 o'r Ddeddf, gydag adolygiadau ar wahân ar gyfer cymorth cyfreithiol a chyllid ymglyfreitha sifil.

39. Ers deddfu, canfu adroddiad 2014 y Swyddfa Archwilio Genedlaethol *Implementing reforms to civil legal aid*<sup>40</sup>:

**"The Ministry reduced fees for providers without a robust understanding of how this would affect the market, and its monitoring has been limited. Many providers told us they were struggling to provide services for the fees paid, despite using a range of approaches to reduce costs. The Ministry wanted to stimulate the development of innovative solutions to providing services at a lower cost. It has monitored whether providers are in financial distress. However it has not monitored the extent to which providers are choosing not to undertake civil legal aid work. There is no requirement to perform a minimum level of work to remain a provider."**

#### Mynediad at Wasanaethau Cyfreithiol

40. Mae mynediad at gyfiawnder yn bodoli pan fydd y cyhoedd yn gallu deall a defnyddio gwybodaeth a gwasanaethau mewn ffordd amserol a fforddiadwy er mwyn atal a datrys eu problemau cyfreithiol a sicrhau canlyniadau cyfiawn.

41. Yn ei hadroddiad yn 2017 *Access denied? LASPO four years on*<sup>41</sup> nodi Cymdeithas y Cyfreithwyr fod lleihau cwmplas cymorth cyfreithiol drwy'r Ddeddf wedi achosi nifer o fylchau o ran darpariaeth cyngor cyfreithiol, gan ddod i'r casgliad bod Llywodraeth y DU wedi methu ag ystyried y ffaith bod cyfreithwyr a oedd yn rhoi cyngor cynnar yn ffynhonnell bwysig o atgyfeiriadau at gyfryngu, ac felly y byddai dileu mynediad at gyngor cynnar gan gyfreithiwr, yn effeithio'n andwyol ar y niferoedd a oedd yn dewis cyfryngu.

42. Treuliodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd flwyddyn yn cynnal adolygiad trylwyr o'r diwydiant a chanfu nad oedd digon o wybodaeth

<sup>38</sup> Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012, <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/contents/enacted>

<sup>39</sup> Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012: Memorandwm ar ôl Deddfu [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/655971/LASPO-Act-2012-post-legislative-memorandum.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655971/LASPO-Act-2012-post-legislative-memorandum.pdf)

<sup>40</sup> *Implementing reforms to civil legal aid*, NAO, 2017 <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2014/11/Implementing-reforms-to-civil-legal-aid1.pdf>

<sup>41</sup> *Access Denied? LASPO Four Years On*, Cymdeithas y Cyfreithwyr, 2017 <https://www.lawsociety.org.uk/support-services/research-trends/laspo-4-years-on/>

ar gael am brisiau, ansawdd na gwasanaethau er mwyn helpu'r rhai y mae angen help cyfreithiol arnynt i ddewis yr opsiwn gorau. Yn ei adroddiad terfynol<sup>42</sup> daeth i'r casgliad nad yw'r gystadleuaeth mewn gwasanaethau cyfreithiol i ddefnyddwyr unigol a busnesau bach yn gweithio'n dda. Felly gall cael y gwasanaeth cywir am werth da fod yn heriol gan y gall defnyddwyr wynebu amrywiadau eang o ran cost gwasanaethau tebyg. Gall defnyddwyr hefyd gael anhawster i ddod o hyd i ddigon o wybodaeth i'w helpu i nodi eu hanghenion cyfreithiol yn y lle cyntaf.

43. Meddai Rachel Merelie, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros dro ar gyfer Marchnadoedd ac Uno yn y CMA:

**"You might not need a lawyer very often but when you do it will often be at a crucial point in your life – whether that's buying a property, resolving a dispute or getting expert advice on financial and employment matters. So the transparency, affordability and accessibility shortcomings we have identified are a real concern. Consumers who are equipped with the information they need to assess the services on offer and choose the best deal for them, will not just benefit personally but will also help drive competition, quality and innovation across the whole market. That means a better outcome for everyone and, importantly, fewer people will be discouraged from seeking the help they need."**<sup>43</sup>

44. Argymhellodd adroddiad terfynol y CMA y dylai'r rheoleiddwyr wneud y canlynol:

- diwygio eu gofynion rheoleiddiol er mwyn sicrhau bod cwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau cyfreithiol yn arddangos gwybodaeth am brisiau, gwasanaethau ac amodau unioni yn agored ar eu gwefannau ac yn eu deunydd cyhoedduswydd

- gwella a hyrwyddo gwefan bresennol Legal Choices fel y bydd yn fan cychwyn i gwsmeriaid y mae angen cymorth arnynt i ddeall y farchnad a phrynu gwasanaethau
- sicrhau bod mwy o ddata rheoleiddiol ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ddatblygu safleoedd cymharu dibynadwy
- annog darparwyr gwasanaethau cyfreithiol i ystyried adborth ac adolygu llwyfannau er mwyn sicrhau y gall cwsmeriaid fanteisio ar brofiad defnyddwyr blaenorol cyn gwneud eu dewis.

45. Cyhoeddodd yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr 217 o 'rybuddion sgam' er mwyn rhybuddio'r cyhoedd a'r proffesiwn o seiberdroseddau yn 2017. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y twyllwyr yn esgus bod yn gyfreithwyr er mwyn gwneud i'w sgam ymddangos yn ddilys. Un o'r mathau mwyaf cyffredin o sgamio yw bachu aelodau'r cyhoedd drwy ddweud wrthynt y gallant hawlio rhan o etifeddiant.

46. Gallai technoleg gael effaith i sicrhau mwy o fynediad at gyfiawnder yn gysylltiedig ag argymhellion yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan gynnwys:

- helpu i leihau cost gwasanaethau a ddarperir yn fasnachol i'r 'farchnad gyfreithiol gudd'; sef term a ddatblygwyd gan Richard S. Granat<sup>44</sup> i ddisgrifio'r rhai a fyddai'n prynu gwasanaethau pe baent yn ddigon rhad
- cefnogi darpariaeth gwybodaeth gyfreithiol, addysg a chyingor syml
- helpu ymgyfreithwyr i gael gwasanaethau cyngor, cyfryngu a chymynroddi ar-lein
- defnyddio deallusrwydd artifisial a chyfrifiaduro sgwrsiol i roi cyngor hygyrch ac ateb cwestiynau cyfreithiol.

<sup>42</sup> Legal services market study Final report, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), 2016 <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5887374d40f0b6593700001a/legal-services-market-study-final-report.pdf>

<sup>43</sup> CMA demands greater transparency from legal service providers, CMA, 2016 <https://www.gov.uk/government/news/cma-demands-greater-transparency-from-legal-service-providers>

<sup>44</sup> The Latent Market for Legal Services, Closing the Justice Gap, 2013 <https://www.slideshare.net/rgranat/latent-market-for-legal-services>

47. Efallai y bydd y rhai na allant fynd at gyfreithiwr yn gallu cael help cyfreithiol o hyd am rannau allweddol o'r achos drwy ddatfwdelu. Yn lle ffurflenni llys statig ar-lein i unigolion eu lawrlwytho, eu hargraffu a'u cwblhau â llaw, mae'n bosibl i ddefnyddwyr ddefnyddio cyfweliadau rhyngweithredol sy'n tywys y defnyddiwr drwy'r broses gam wrth gam drwy ryngwyneb holiadur hwylus<sup>45</sup>.

48. Elusen yw LawWorks<sup>46</sup> sy'n cysylltu cyfreithwyr gwirfoddol â phobl y mae angen cyngor cyfreithiol arnynt yng Nghymru a Lloegr, nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ac na allant fforddio talu. Mae'n gweithio gyda'r sefydliadau nid er elw sy'n ei chefnogi. Mae LawWorks Cymru<sup>47</sup> wedi'i lleoli yng Nghymru ac mae'n rhoi cymorth penodol i sicrhau mwy o fynediad at gyfiawnder ledled y wlad. O'i swyddfa yng Nghaerdydd, mae'n gweithio gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys timau cyfreithiol, darparwyr cymorth cyfreithiol, ysgolion y gyfraith ac elusennau eraill i nodi a chefnogi cyfleoedd i wirfoddoli er mwyn helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf.

49. Mae Cyrraedd Cyfiawnder Cymru<sup>48</sup> yn rhan o rwydwaith o saith Ymddiriedolaeth Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr sy'n gweithio gyda'r Sefydliad Mynediad at Gyfiawnder i gefnogi asiantaethau pro bono a chynghori, gan sicrhau y gall cyllid gael ei ddosbarthu lle mae ei angen fwyaf ledled Cymru a Lloegr. Mae'r elusen yn cefnogi asiantaethau yn y sector elusennol sy'n rhoi cyngor cyfreithiol am ddim pan fo'i angen, gan ategu cymorth cyfreithiol yn hytrach na'i ddisodli, a chyfrannu at y cyngor cyfreithiol sydd ar gael yng Nghymru.

## Y Farchnad Gyfreithiol

50. Mae darparwyr gwasanaethau cyfreithiol amgen yn elfen gynyddol bwysig o dirwedd gwasanaethau cyfreithiol. Yn ôl astudiaeth gan Thomson Reuters<sup>49</sup> yn 2017 mae'r farchnad fyd-eang hon yn werth tua \$8.4bn. Mae'r sector gwasanaethau cyfreithiol wedi mynd yn fwy cymhleth wrth i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol amgen a busnesau technegol gystadlu a chydweithredu â chwmnïau cyfreithwyr sefydledig. Mae hyn mewn ymateb i newidiadau yn y galw ymhlith cwsmeriaid a thuedd tuag at ddatgyfuno yn y ffordd y darperir gwasanaethau cyfreithiol gwahanol.

51. Canfu ymchwil Thompson Reuter hefyd fod tua 50% o gwmnïau cyfreithwyr a 60% o adrannau cyfreithiol corfforaethol yn defnyddio darparwyr gwasanaethau cyfreithiol amgen am o leiaf un math o wasanaeth. Y rhai mwyaf cyffredin yw tasgau cyffredin risg isel neu safonol er mwyn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd.

52. Drwy gyflwyno Strwythurau Busnes Amgen o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol (2007) bu modd i'r sector gwasanaethau cyfreithiol sicrhau cyllid allanol. Mae hyn wedi cyfrannu at dwf darparwyr gwasanaethau cyfreithiol amgen yn y DU. Er nad yw llawer o'r cwmnïau strwythur busnes amgen yn cystadlu â chwmnïau cyfraith fasnachol sefydledig ar hyn o bryd, mae cystadleuaeth gynyddol oddi wrth newydd-ddyfodiaid eraill yn y farchnad. Er enghraifft, mae'r cwmnïau cyfrifwyr PwC<sup>50</sup> a Deloitte<sup>51</sup> yn ehangu eu hamrywiaeth o wasanaethau cyfreithiol ac yn cael effaith yn y farchnad.

53. Y tu hwnt i gostau, mae cyfreithwyr yn sylweddoli, er mwyn cynnal a chryfhau eu cydberthnasau â chleientiaid, fod yn rhaid iddynt

<sup>45</sup> A2J Guided Interviews and online interactive PLEI' Cyfnewidfa Ddysgu PLE Ontario, Mawrth 2017 <http://plelearningexchange.ca/a2j-guided-interviews-online-interactive-plei/>

<sup>46</sup> LawWorks <https://www.lawworks.org.uk>

<sup>47</sup> LawWorks Cymru <https://www.lawworks.org.uk/solicitors-and-volunteers/get-involved/lawworks-cymru>

<sup>48</sup> Cyrraedd Cyfiawnder Cymru <http://www.reachingjusticewales.org.uk/>

<sup>49</sup> Thomson Reuters, '2017 ALSP Study: Understanding the growth and benefits of these new legal providers', Chwefror 2017 <https://blogs.thomsonreuters.com/legal-uk/2017/02/06/2017-alsp-study-new-legal-providers/>

<sup>50</sup> PwC Legal <https://www.pwc.co.uk/services/legal-services.html>

<sup>51</sup> Deloitte Legal <https://www2.deloitte.com/global/en/services/legal.html>

ddod o hyd i ffyrdd arloesol o roi gwerth ar ôl cael cytundeb. Lle mae cwmnïau wedi llwyddo i sicrhau arbedion cost ac amser nodedig drwy ddefnyddio technoleg ac awtomeiddio prosesau, efallai y bydd cleientiaid sy'n ymwybodol o'r systemau hyn bellach yn disgwyl cael gostyngiad mewn ffioedd.

### **Arloesedd sydd wedi'i ysgogi gan dechnoleg**

54. Mae adroddiad 2017 Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr *Capturing Technological Innovation in Legal Services*<sup>52</sup> yn rhagweld y bydd darparwyr gwasanaethau cyfreithiol blaenllaw ym mhob disgyblaeth yn debygol o fod yn barod iawn i dderbyn arloesedd fel rhan o'u DNA corfforaethol, gan ysbrydoli pobl â gweledigaeth o ran sut y gellir ailgynllunio proses a lle gallai busnes ddilyn cyfeiriad hollol wahanol.

55. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi, er bod atebion technolegol yn chwarae rhan allweddol mewn llawer o'r datblygiadau arloesol y mae'n cyfeirio atynt, nad yw technoleg ohoni'i hun yn ateb i bopeth i gwmnïau – ac mai prin yw'r cwmnïau a fydd yn datrys eu problemau drwy fuddsoddi mewn darn o feddalwedd yn unig. Mae angen i'r achos dros newid a systemau gweithredu gael ei ysgogi gan strategaeth hirdymor a model busnes cwmni, y gall technoleg wedyn eu galluogi.

56. Amlinellir isod rai o'r technolegau sy'n cael eu datblygu, sy'n galluogi'r sector gwasanaethau cyfreithiol i drawsnewid gwasanaethau:

### **Awtomeiddio Gwasanaethau a Deallusrwydd Artiffisial**

57. Yn ystod Darlith Gyntaf Cymdeithas y Cyfreithwyr ar Ddyfodol y Gyfraith, ymdriniodd Syr Geoffrey Vos, Canghellor yr Uchel Lys, â rhai o'r newidiadau a'r datblygiadau arloesol y bydd angen i gyfreithwyr

ymgyfarwyddo â hwy, a sut y bydd y ffyrdd y mae cyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr yn gweithredu yn cael eu trawsnewid o fewn cenhedlaeth. Mae'n disgrifio deallusrwydd artiffisial fel:

**'AI falls into two categories: ordinary artificial intelligence which has become a reality due to high data processing speeds, and what is becoming known as artificial general intelligence or strong or full AI. This latter is where machines can perform the kind of intellectual decision-making that we normally associate only with humans: for example, the decision of a judge to choose between allocating the custody of a child to her father or her mother, or the decision as to what happened at a contested business meeting'**<sup>53</sup>.

58. Mae Sefydliad Byd-eang McKinsey wedi bod yn cynnal rhaglen ymchwil sy'n mynd rhagddi i dechnolegau awtomeiddio a'u heffeithiau posibl. Mae ei adroddiad yn 2017 *A future that works: Automation, employment, and productivity*<sup>54</sup> yn tynnu sylw at sawl canfyddiad allweddol:

**'The potential impact of automation on employment varies by occupation and sector. Activities most susceptible to automation include physical ones in predictable environments, such as operating machinery and preparing fast food. Collecting and processing data are two other categories of activity that can increasingly be done better and faster with machines. This could displace large amounts of labor, for instance in mortgage origination, paralegal work, accounting, and back-office transaction processing.**

**It is important to note, however, that even when some tasks are automated, employment in those occupations may not decline, but rather workers may perform new tasks. In addition, employment in occupations may also grow,**

<sup>52</sup> Adroddiad 2017 Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr 'Capturing Technological Innovation in Legal Services' <https://www.lawsociety.org.uk/support-services/research-trends/capturing-technological-innovation-report/>

<sup>53</sup> Araith Syr Geoffrey Vos, Darlith Gyntaf Cymdeithas y Cyfreithwyr ar Ddyfodol y Gyfraith, 2017 <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2018/03/chc-speech-banking-standards-board-lecture.pdf>

<sup>54</sup> A future that works: Automation, employment, and productivity, Sefydliad Byd-eang McKinsey, 2017 <https://www.mckinsey.com/~media/McKinsey/Global%20Themes/Future%20of%20Organizations/What%20the%20future%20of%20work%20will%20mean%20for%20jobs%20skills%20and%20wages/MGI-Jobs-Lost-Jobs-Gained-Report-December-6-2017.ashx>

**if the overall demand for that occupation grows enough to overwhelm the rates of automation. Automation will have a lesser effect on jobs that involve managing people, applying expertise, and those involving social interactions, where machines are unable to match human performance for now.'**

59. Wrth ddarparu gwasanaethau cyfreithiol, mae elfennau o waith rhagweladwy, ailadroddadwy y gellir ymgymryd ag ef beth bynnag fo natur y mater neu'r maes ymarfer. Gellir defnyddio Awtomeiddio Prosesau Robotig fel 'gweithlu digidol' sy'n awtomeiddio tasgau risg uchel, â llaw, sy'n seiliedig ar reolau ac sy'n ailadroddus a gwella ystwythder, effeithlonrwydd, cywirdeb a chydymffurfiaeth yn sylweddol.

60. Mae llawer o gwmnïau cyfreithwyr wedi gwneud defnydd o awtomeiddio dogfennau ers amser maith, ond mae'r adnoddau hyn wedi datblygu cryn dipyn yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Drwy ddefnyddio awtomeiddio, coed rhesymeg a choed penderfynu i greu templedi dogfennau sy'n diffinio'r holl dermau chwilio perthnasol ymlaen llaw, gall unigolion nad ydynt yn gyfreithwyr a busnesau ddefnyddio'r dechnoleg i lunio dogfennau a chontractau drafft cychwynnol a oedd yn arfer gofyn am fewnbwn gan dimau cyfreithiol. Dywedir bod y defnydd o'r technolegau hyn eisoes wedi gostwng biliau cyfreithwyr JP Morgan 360,000 o oriau mewn blwyddyn<sup>55</sup>.

61. Mae deallusrwydd artifisial eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn gwasanaethau i gefnogi gwasanaeth cwsmeriaid a gwella eu profiad. Mae rhannau o'r GIG yn bwriadu defnyddio fideoalwadau, dyfeisiau gwisgadwy a thechnoleg ragfynegol i wella'r ffordd y maent yn gofalu am gleifion. Mae HealthVault Insights<sup>56</sup> Microsoft yn

defnyddio dysgu peirianyddol a dadansoddeg i ddwyn data cleifion ynghyd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys dyfeisiau gwisgadwy, fel y gall gweithwyr proffesiynol meddygol sylwi ar dueddiadau o ran iechyd pobl. Gallai hyn, yn y pen draw, helpu i danysgrifennu yswiriant bywyd ac iechyd yn fwy cywir.

62. Mae'r Swyddfa Twyll Difrifol yn defnyddio OpenText, a ddisgrifir yn "gyfreithiwr Deallusrwydd Artiffisial", y bwriedir iddo ddechrau gweithio ym mis Ebrill 2018 i ddadansoddi dogfennau yn awtomataidd. Cyn hynny, gwnaeth dreialu technoleg OpenText debyg yn ystod ei hymchwiliad dros bedair blynedd i dwyll yn Rolls-Royce a oedd yn cynnwys bwrw golwg dros 30 miliwn o ddogfennau. Dywedodd y Swyddfa Twyll Difrifol fod technoleg 80% yn rhatach na defnyddio bargyfreithwyr allanol i fwrw golwg dros y dogfennau hynny a nodi deunydd cyfreithiol freintiedig.<sup>57</sup>

### **Technolegau Priflyfrau Dosbarthedig**

63. Mae gan Dechnolegau Priflyfrau Dosbarthedig, megis cadwyn bloc, lawer mwy o gymwysiaid, rhai sy'n bodoli eisoes a rhai posibl, yn ogystal â chael eu defnyddio ar gyfer cêl-arian cyfred. Mae Syr Geoffrey Vos yn defnyddio technolegau priflyfrau dosbarthedig fel:

**'A digital ledger is simply a limited or unlimited network of computers or nodes that communicate with one another and verify the transaction according to the coded rules of their establishment.'**<sup>58</sup>

64. Mae cadwyn bloc a thechnolegau priflyfrau dosbarthedig eraill yn cael eu profi a'u defnyddio mewn gwasanaethau ariannol, yn enwedig mewn cêl-arian cyfred, ond gall y dechnoleg gael ei defnyddio mewn cymwysiaid posibl llawer ehangach.

<sup>55</sup> 'JPMorgan Software Does in Seconds What Took Lawyers 360,000 Hours', Bloomberg, 2017 <https://www.bloomberg.com/news/articles/2017-02-28/jpmorgan-marshals-an-army-of-developers-to-automate-high-finance>

<sup>56</sup> Microsoft HealthVault insights <https://www.healthvault.com/en-us/healthvault-insights/>

<sup>57</sup> 'Serious Fraud Office hires 'artificial intelligence lawyer' <https://news.sky.com/story/serious-fraud-office-hires-ai-lawyer-11325218>

<sup>58</sup> Araith Syr Geoffrey Vos, Darlith Gyntaf Cymdeithas y Cyfreithwyr ar Ddyfodol y Gyfraith, 2017 <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2018/03/chc-speech-banking-standards-board-lecture.pdf>

65. Mae technoleg cadwyn bloc yn cael ei hystyried yn dechnoleg sylfaenol dyfodol rheoli risg, ond mae'n hollbwysig bod cwmnïau yn deall, er bod cadwyn bloc yn addo mwy o effeithlonrwydd mewn prosesau busnes a lliniaru risgiau penodol sy'n bodoli ar hyn o bryd, y gall hefyd arwain at risgiau newydd. Hefyd, mae'n bwysig deall datblygiad canllawiau rheoleiddio a'u goblygiadau.

66. Mae nifer o achosion defnydd wedi cael eu sefydlu mewn gwasanaethau cyfreithiol sy'n defnyddio cadwyn bloc. Ym maes eiddo deallusol, gallai breindaliadau o ffrydio gael eu codio i mewn i'r gadwyn bloc er mwyn sicrhau y caiff artistiaid eu talu'n ddi-oed.

67. Mae contractau deallus yn brotocolau cyfrifiadurol sy'n ymgorffori telerau ac amodau contract. Felly, gall llawer o fathau o gymalau cytundebol gael eu gwneud yn hunanweithredol yn rhannol neu'n llawn, yn hunanorfodol, neu'r ddau. Os na chaiff gwasanaeth ei ddarparu, nid yw'r cleient yn talu, neu os yw'n mynd y tu hwnt i bamedrau defnydd y contract, gallai'r contract deallus godi taliadau, rhoi cosbau neu roi'r gorau i wasanaeth.

68. Mae achosion defnydd eraill yn cynnwys perchenogaeth tir mewn gwledydd datblygol a chadwyn gwarchodaeth, y mae'r naill a'r llall yn dangos effeithiolrwydd cadwyn bloc o ran sicrhau sicrwydd hanes trafodion mewn cronfa ddata sydd wedi'i hamgodio i lefel uchel. Mae posibilrwydd hefyd o ystyried y defnydd o gadwyn bloc mewn hawliadau moduro, er mwyn galluogi yswirwyr, garejys atgyweirio a chwmnïau hurio i brosesu hawliadau'n awtomatig.

### **Dadansoddeg Ragfynegol**

69. Dadansoddeg Ragfynegol yw'r broses o ddefnyddio data i ragweld digwyddiadau anhysbys, posibl yn y dyfodol. Caiff dadansoddeg ragfynegol ei defnyddio mewn amrywiaeth eang o ddiwydiannau, gan ddefnyddio technegau fel ystadegau, modelu,

cloddio data, a dysgu peirianyddol manwl nid yn unig i brosesu data ond i dynnu cyd-destun o'r data.

70. Gall cyfreithiwr bellach ddweud wrth gleient am risgiau a manteision llwybr gwahanol tuag at yr un nod gyda mwy o gywirdeb ac effeithlonrwydd nag erioed o'r blaen. Nid yw cwmnïau yn dibynnu ar brofiad llond dwrn o unigolion mwyach. Yn hytrach, mae ganddynt bŵer llawer o dimau sydd ag amrywiaeth eang o arbenigeddau i fanteisio arnynt.

71. Mae hyn nid yn unig yn eu galluogi i roi gwell cyngor i'w cleientiaid, ond i wneud hynny gyda mwy o hyder yn eu hargymhellion. Er enghraifft, gallai cwmni nodi'r mathau mwyaf cyffredin o ffactorau sy'n ysgogi hawliadau. Byddai hyn, yn ei dro, yn eu helpu i ddeall pa arferion y byddai'n rhaid i'r busnes eu newid neu pa ymddygiadau y dylai eu hosgoi er mwyn lleihau nifer yr hawliadau hyn yn y dyfodol.

### **Sgwrsio fel llwyfan: cynorthwywyr rhithwir, sgwrsio byw a botiau sgwrsio**

72. Ynghyd â datblygiadau ym maes prosesu iaith naturiol a dysgu peirianyddol manwl, mae cwmnïau technoleg yn defnyddio meddalwedd sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial i greu adnoddau arloesol i ymgysylltu â defnyddwyr a rhyngweithio â nhw.

73. Mae botiau sgwrsio yn gweithredu fel cynrychiolwyr digidol, gan efelychu ymddygiad dynol er mwyn rhyngweithio mewn ffordd fwy syml, effeithlon a chyson. Mae botiau sgwrsio yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid ar raddfa fwy ar unwaith am eu bod yn gallu ymdrin â nifer o ryngweithiadau ar yr un pryd heb fod angen cyflogi staff ychwanegol.

74. Wrth i ddeallusrwydd artiffisial eu gwneud yn fwy soffistigedig, mae rhai botiau sgwrsio wedi'u hyfforddi i adnabod ymholiadau mwy cymhleth a'u cyfeirio at weithredwr dynol. Maent hefyd yn gymharol syml i'w hadeiladu, gan ddefnyddio llwyfan deallusrwydd artiffisial trydydd parti.

## Brexit

### Mynediad at Dalent

75. Mae cyfreithwyr sy'n dal un o chwe theitl proffesiynol cyfreithiol y DU<sup>59</sup> a dinasyddiaeth y DU, a'u cwmnïau, yn cael mynediad at farchnad gwasanaethau cyfreithiol yr UE ar hyn o bryd drwy Gytuniad Gweithredu'r UE (TFEU)<sup>60</sup>.

76. Nododd adroddiad terfynol y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar ei ymchwiliad i oblygiadau Brexit i'r system gyfiawnder<sup>61</sup> fod hawliau trawsffiniol i ymarfer yn yr UE yn achos pryder mawr i dystion. Mae tair o gyfreithiau'r UE yn cyfuno i greu 'marchnad sengl mewn gwasanaethau cyfreithiol' i bob diben:

- mae Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfreithwyr 1977 yn rhoi'r hawl i gyfreithwyr sydd wedi cymhwyso mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth ddarparu gwasanaethau dros dro mewn Aelod-wladwriaethau eraill
- mae Cyfarwyddeb Sefydlu Cyfreithwyr 1998 (neu 'y Gyfarwyddeb Sefydlu' yn syml) yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ganiatáu i gyfreithwyr o wledydd eraill yn yr UE i ymarfer yno'n barhaol, a rhoi llwybr at gymhwyso yn y proffesiynau cyfreithiol yn yr awdurdodaeth honno
- mae Cyfarwyddeb Cydnabyddiaeth Gilyddol Cymwysterau Proffesiynol 2005 (a elwir yn 'PQD') yn cefnogi'r uchod gyda darpariaethau o ran cydnabyddiaeth drawsffiniol cymwysterau (gan gynnwys yn y proffesiynau cyfreithiol).

77. Mae cyfreithwyr mewn sefyllfa unigryw o ran y gyfundrefn gyfreithiol ar gyfer symud yn rhydd yn yr UE. Mae'n broffesiwn sy'n gweithio o dan system ar wahân o gyfarwyddiadau ac mae'n defnyddio dull

unigryw o gydnabyddiaeth gilyddol heb integreiddio'n syth i broffesiwn yr Aelod Wladwriaeth sy'n derbyn.

78. Mae Cynghorau Bar a Chymdeithasau Cyfreithwyr Ewrop (CCBE) wedi dweud:

**'the system which has been created is simple, non-bureaucratic and very liberal and has led to easy cross-border mobility for lawyers, notwithstanding the wide diversity of legal systems among the Member States. With these two Directives, lawyers have reached a level of free movement for the legal profession within the European Union which is, as yet, inconceivable in other parts of the world, even in the framework of federal structures, for example the USA. Cross-border free movement of lawyers in the European Union is a model and a goal for many lawyers outside the European Union.'**<sup>62</sup>

79. Mae gan Aelod-wladwriaethau eu cyfyngiadau penodol ar gyfreithwyr a chwmnïau cyfreithwyr tramor (nad ydynt yn dod o Aelod-wladwriaeth). Ar ôl Brexit, os na ellir dod i gytundeb ynglŷn â chynnal lefel bresennol y mynediad at y Farchnad Sengl, efallai y bydd y cyfyngiadau hyn yn amharu ar allu cyfreithwyr o'r DU a chwmnïau cyfreithwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU i weithredu mewn Aelod-wladwriaethau unigol<sup>63</sup>.

### Pwysigrwydd Sector Cyfreithiol y DU ar ôl Brexit

80. Mae TheCityUK yn amcangyfrif bod dros 200 o gwmnïau cyfreithwyr tramor o tua 40 o awdurdodaethau - yn cyflogi dros 10,000 o bobl - yn gweithredu yn y DU. Mae llawer ohonynt yn dibynnu ar fynediad at farchnad yr UE, sefyllfa Llundain fel canolfan ariannol fyd-eang flaenllaw a'r gallu i recriwtio talent gymwysedig ym

<sup>59</sup> Y teitlau hyn yw Cyfreithwyr Cymru a Lloegr, Bargyfreithwyr Cymru a Lloegr, Cyfreithwyr yr Alban, Adfocatiaid yr Alban, Bargyfreithwyr Gogledd Iwerddon a Chyfreithwyr Gogledd Iwerddon.

<sup>60</sup> Fersiwn wedi'i chydgrynhoi o Gytuniad Gweithredu'r Undeb Ewropeaidd 26.10.2012 Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd C326/47 [http://eur-lex.europa.eu/resource.html?uri=cellar:2bf140bf-a3f8-4ab2-b506-fd71826e6da6.0023.02/DOC\\_2&format=PDF](http://eur-lex.europa.eu/resource.html?uri=cellar:2bf140bf-a3f8-4ab2-b506-fd71826e6da6.0023.02/DOC_2&format=PDF)

<sup>61</sup> Implications of Brexit for the justice system, Mawrth 2017 <https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmjust/750/750.pdf>

<sup>62</sup> CCBE position Evaluation of the Lawyers' Directives, 2014 [http://ccbe.eu/NTCdocument/EN\\_12092014\\_EN\\_CCBE\\_1\\_1412929215.pdf](http://ccbe.eu/NTCdocument/EN_12092014_EN_CCBE_1_1412929215.pdf)

<sup>63</sup> Ceir cronfa ddata gynhwysfawr o'r rheolau hyn yn ôl gwlad benodol ar gyfer pobl Aelod-wladwriaeth yn IBA Global Regulation and Trade in Legal Services Report 2014 <http://www.ibanet.org/Document/Default.aspx?DocumentUid=1D3D3E81-472A-40E5-9D9D-68EB5F71A702>



maes cyfraith Cymru a Lloegr. Mewn cyd-destun Ewropeaidd, mae cyfanswm gwerth (mewn miliynau o ewros) masnach y DU mewn gweithgareddau cyfreithiol yn 172% a thros 400% yn fwy na gwerth marchnad yr Aelod-wladwriaethau yn yr ail a'r trydydd safle, sef yr Almaen a Ffrainc<sup>64</sup>.

81. Mae dros chwarter y 320 o awdurdodaethau cyfreithiol yn y byd wedi'u seilio ar egwyddorion cyfraith gyffredin Lloegr<sup>65</sup> a chyfraith Loegr yw'r gyfraith sy'n llywodraethu mewn 40% o gyflafareddiadau<sup>66</sup>. Cyfraith Cymru a Lloegr yw sail cyfraith a llywodraethu'r 53 o aelodau Cymanwlad y Cenhedloedd, sydd â phoblogaeth gyfun o 2.4 biliwn, gyda mwy na 60 y cant ohonynt yn 29 oed neu'n iau.<sup>67</sup>

82. Mae adroddiad terfynol y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar ei ymchwiliad i oblygiadau Brexit i'r system gyfiawnder yn ei gwneud yn glir bod y sector gwasanaethau cyfreithiol yn ategu sawl maes o weithgarwch economaidd y DU, gan nodi:

**'Its ability to continue to facilitate these in the EU will diminish without protection of existing practising rights there for UK lawyers. There is also clear evidence of reciprocal benefit. We recommend the Government include achieving this protection in its Brexit negotiating strategy'**<sup>68</sup>.

83. Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad:

**'...that the Government should consider and promote the legal services sector in the context of its expected post-Brexit trade recalibration and the pursuit of new deals; it should outline steps it will take to protect and provide opportunities for the sector.'**

84. Ymhelaethodd yr Arglwydd Brif Ustus a Changhellor yr Uchel Lys ar y pwyntiau isod er mwyn pwysleisio cryfderau unigryw cyfraith Lloegr a safon uchel gwasanaethau datrys anghydfodau yn y DU<sup>69</sup>:

- Mae gan y DU awdurdodaeth gwbl annibynnol a chydymffurfiaeth â rheolaeth y gyfraith. Mae'r ffactorau hyn yn ennyn hyder byd busnes ac maent yn sail i fasnach ryngwladol a buddsoddi.
- Mae cyfraith sylwedd gyffredin Lloegr yn glir, yn deg ac yn rhagweladwy, ac yn seiliedig ar gynsail.
- Mae cyfraith gyffredin Lloegr ynghyd â system gyfreithiol y DU yn hyblyg, ac wedi bod yn hyblyg erioed. Mae'n ymaddasu i ateb heriau byd masnachol sy'n newid o hyd.
- Mae gweithdrefnau llys a gweithdrefnau cyflafareddol y DU yn ymarferol ac yn arloesol, gan ddatrys anghydfodau busnes ac ariannol yn gyflym ac yn effeithlon.
- Mae ymgyfreitha a chyflafareddu yn y DU yn gost-effeithiol.
- Bydd y DU yn parhau'n ganolfan fyd-eang ar gyfer Cyflafareddu a Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod ar ôl Brexit. Ni fydd Brexit yn cael unrhyw effaith ar Gonfensiwn Efrog Newydd ar Ddyfarniadau Cyflafareddol.
- Bydd cydnabyddiaeth gilyddol dyfarniadau'r DU a'u gorfodi dramor yn parhau fel cynt ar y cyfan, boed hynny o dan gytuniadau dwyochrog hirsefydledig neu o dan egwyddorion cyd-ddealltwriaeth cyfraith gyffredin.
- Bydd cymal awdurdodaeth hollgyfyngol y DU yn parhau i fod yn effeithiol ar ôl Brexit.

<sup>64</sup> The impact of Brexit on the UK-based legal services sector, TheCityUK, 2016 <https://www.thecityuk.com/research/The-impact-of-Brexit-on-the-UK-based-legal-services-sector/>

<sup>65</sup> Ymgyrch Legal Services are GREAT 2017 <https://www.gov.uk/government/news/legal-services-are-great>

<sup>66</sup> Prifysgol y Frenhines Mari, Arolwg Rhyngwladol o Gyflafareddu, 2010 [http://www.arbitration.qmul.ac.uk/media/arbitration/docs/2010\\_67InternationalArbitrationSurveyReport.pdf](http://www.arbitration.qmul.ac.uk/media/arbitration/docs/2010_67InternationalArbitrationSurveyReport.pdf)

<sup>67</sup> The Commonwealth: Fast Facts <http://thecommonwealth.org/fastfacts>

<sup>68</sup> Implications of Brexit for the justice system, Mawrth 2017 <https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmjust/750/750.pdf>

<sup>69</sup> Legal UK, 'The strength of English law and the UK jurisdiction' 2017 <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2017/08/legaluk-strength-of-english-law-draft-4-FINAL.pdf>

- Bydd Llundain a'r DU yn parhau i roi mynediad heb ei ail at wasanaethau cyfreithiol o safon uchel.
- Bydd y DU yn parhau'n un o ganolfannau ariannol, yswiriant a masnachol mwyaf blaenllaw'r byd.

85. Nododd yr Arglwydd Brif Ustus yn ei adroddiad yn 2017<sup>70</sup>:

**'The UK's strength in delivering legal services internationally is underpinned by a strong regulatory framework and expertise in regulatory law. In addition, the English language is and will remain the language of business, irrespective of the consequences of Brexit.'**

### **Llywodraeth Cymru a Brexit**

86. Gall masnach mewn gwasanaethau fod yn arbennig o anodd i'w rhyddfrydoli o ystyried y cymhlethdodau rheoleiddio a'r sensitifrwydd gwleidyddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau. Nid yw hyd yn oed Marchnad Sengl yr UE wedi rhyddfrydoli masnach mewn gwasanaethau yn llwyr. Mae gan ddiwydiannau gwasanaethau yng Nghymru gysylltiad agos â masnach mewn nwyddau. Er enghraifft, mae gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau ymgynghorwyr, hysbysebu a gwasanaethau cyfreithiol oll yn gysylltiedig â masnach mewn nwyddau i ryw raddau. Mae'r sector gwasanaethau ariannol yn sector allforio mawr sy'n cynhyrchu gwarded masnach mawr i'r DU.

87. Er bod masnach mewn gwasanaethau yn llai arbenigol yng Nghymru, byddai effeithiau anuniongyrchol i economi Cymru pe na bai modd cynnal yr un lefel o fasnach mewn gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'n bwysig hefyd fod cysylltiadau pwysig rhwng cysoni rheoleiddiol a rhyddid pobl i symud er mwyn hwyluso masnach mewn

gwasanaethau. Fel y nodwn yn ein cyhoeddiad *Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl*<sup>71</sup> rydym yn dadlau dros ymagwedd hyblyg – ond rheoledig – tuag at ymfudo sydd â mwy o gysylltiad â chyflogaeth. Mae'n rhaid i hyn ddigwydd law yn llaw â dulliau trylwyr o atal cam-fanteisio ar weithwyr gan gyflogwyr diegwyddor er mwyn gwella cyflogau ac amodau i bob gweithiwr.

88. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ac yn gyson yn ei chwe blaenoriaeth:

- Mynediad llawn a dirwysr at y Farchnad Sengl yn parhau a bod yn rhan o Undeb Tollau er mwyn diogelu'r 60% o allforion o Gymru sy'n mynd i'r UE a chadw a chynyddu buddsoddiadau sy'n creu swyddi.
- System ymfudo newydd sy'n cysylltu ymfudo'n agosach at gyflogaeth fel y gallwn recriwtio'r meddygon, y nyrsys, y peirianwyr a'r gweithwyr eraill sydd eu hangen arnom, a diogelu cyflogaion rhag cam-fanteisio ar yr un pryd.
- Ni ddylai Cymru golli ceiniog mewn cyllid o ganlyniad i Brexit fel yr addawyd yn ystod y refferendwm.
- Perthynas gyfansoddiadol sylfaenol wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU – yn seiliedig ar gyd-barch.
- Cynnal y mesurau diogelu cymdeithasol ac amgylcheddol presennol, gan gynnwys hawliau gweithwyr.
- Pwysigrwydd hanfodol cyfnod trosiannol er mwyn osgoi 'mynd dros ddibyn'.

<sup>70</sup> Adroddiad 2017 yr Arglwydd Brif Ustus <https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2017/09/lcj-report-2017-final.pdf>

<sup>71</sup> Brexit a Thegwch o ran Symudiad Pobl, 2017 [https://beta.gov.wales/sites/default/files/2017-09/Brexit%20and%20Fair%20Movement%20of%20People-%28EN%29main\\_WEB.pdf](https://beta.gov.wales/sites/default/files/2017-09/Brexit%20and%20Fair%20Movement%20of%20People-%28EN%29main_WEB.pdf)

## Addysg y Gyfraith a'r Proffesiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

89. Mae ysgolion y gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn cynnig nifer o gyrsiau i israddedigion ac ôl-raddedigion, o Radd Baglor yn y Gyfraith (LLB) a Meistr yn y Gyfraith (LLM), i Ddiploma yn y Gyfraith i Raddedigion (GDL) [cwrw trawsnewid y gyfraith i'r rhai nad yw eu gradd yn y gyfraith], Cwrw Ymarfer Cyfreithiol [LPC] [i ddarpar gyfreithwyr] a Chwrw Hyfforddiant Proffesiynol y Bar (BPTC) [i'r rhai sy'n dymuno dod yn fargyfreithiwr yng Nghymru neu yn Lloegr].

90. Bydd y cyrsiau a gynhelir gan ysgolion y gyfraith ond yn paratoi myfyrwyr i weithio yn y system

gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Er mwyn darparu cwrw cymhwys yn y gyfraith, mae'n rhaid i raglenni ysgolion y gyfraith gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr [ar gyfer y GDL neu LPC] neu Fwrdd Safonau'r Bar [ar gyfer y BPTC]. Mae'n rhaid i gyrsiau fodloni eu gofynion penodol o ran y cynnwys sy'n cael ei gwmpasu a'i asesu.

91. Mae'r ystadegau diweddaraf sy'n olrhain nifer cofrestriadau myfyrwyr a graddedigion yn y gyfraith yn dangos bod Cymru yn cyfrannu tua 5% o fyfyrwyr y gyfraith yn y DU a graddedigion ar lefel cymhwyster ôl-raddedig ac israddedig.

2016/17	Y DU	Cymru (gan gynnwys Y Brifysgol Agored)	% y myfyrwyr AU yn y DU sy'n astudio'r Gyfraith yng Nghymru
Cofrestriadau Israddedigion	69,595	3,200	4.6%
Cofrestriadau Ôl-raddedigion	20,135	940	4.6%
Cymwysterau Is-raddedigion a enillwyd	19,540	985	5%
Cymwysterau Ôl-raddedigion a enillwyd	11,680	620	5.3%

Ffigur 6: Nifer Cofrestriadau Myfyrwyr a'r Cymwysterau a enillwyd, HESA, ystadegau 2016/2017<sup>72</sup>

<sup>72</sup> Cofrestriadau Myfyrwyr <https://www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/students/where-study> Qualifications Obtained <https://www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/students/outcomes>

92. Mae'r ystadegau diweddaraf sy'n olrhain cyflogaeth graddedigion sy'n astudio'r gyfraith ledled y DU yn dangos bod canran y graddedigion o Gymru mewn cyflogaeth broffesiynol yn debyg iawn i gyfartaledd y DU, gyda thua dau o bob tri

o raddedigion yn y gyfraith mewn rolau proffesiynol. Gall y galwedigaethau hyn newid yn ystod gyrfaeodd ymadawyr addysg uwch; caiff hyn ei olrhain yn yr arolwg hydredol o Gyrcfannau Ymadawyr Addysg Uwch.

Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol	Cymru	Gogledd Iwerddon	Yr Alban	Lloegr	Y DU
Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	5	5	15	165	185
Galwedigaethau proffesiynol	35	70	60	590	755
Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig	125	45	120	2190	2480
<b>Cyfanswm y rolau proffesiynol</b>	<b>165</b>	<b>120</b>	<b>195</b>	<b>2945</b>	<b>3425</b>
<b>Canran y rolau proffesiynol</b>	<b>65%</b>	<b>71%</b>	<b>52%</b>	<b>65%</b>	<b>64%</b>
Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol	30	15	50	565	660
Galwedigaethau crefftau medrus	5	0	10	30	40
Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill	10	5	15	100	125
Galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid	30	25	70	620	745
Gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau	5	0	0	20	25
Galwedigaethau elusenol	15	5	30	245	290
<b>Cyfanswm y rolau nad ydynt yn broffesiynol</b>	<b>90</b>	<b>50</b>	<b>175</b>	<b>1575</b>	<b>1890</b>
<b>Canran y rolau nad ydynt yn broffesiynol</b>	<b>35%</b>	<b>29%</b>	<b>48%</b>	<b>35%</b>	<b>36%</b>
Anhysbys	0	0	0	5	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>255</b>	<b>170</b>	<b>370</b>	<b>4525</b>	<b>5320</b>

Ffigur 7: Galwedigaeth ymadawyr gradd gyntaf amser llawn yn y Gyfraith sy'n dechrau gweithio yn y DU yn ôl lleoliad darparwr AU yn 2015/16<sup>73</sup>

<sup>73</sup> Galwedigaeth ymadawyr gradd gyntaf amser llawn yn y Gyfraith sy'n dechrau gweithio yn y DU yn ôl lleoliad darparwr AU a phwnc gradd 2011/12 i 2015/16 [https://www.hesa.ac.uk/files/pre-release/dlhe\\_sfr245\\_1516\\_table\\_7.xlsx](https://www.hesa.ac.uk/files/pre-release/dlhe_sfr245_1516_table_7.xlsx)

93. Mae nifer o sefydliadau yng Nghymru yn cynnig agweddau gwahanol ar addysg yn y gyfraith:

Sefydliad	Arbenigeddau Gwasanaethau Cyfreithiol
Prifysgol Aberystwyth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraith Busnes</li> <li>• Cyfraith Droseddol</li> <li>• Troseddeg a Seicoleg Gymhwysol</li> <li>• Cyfraith Ewropeaidd</li> <li>• Hawliau Dynol</li> <li>• Cyfraith Forol</li> </ul>
Prifysgol Bangor	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfan Cyfraith Ryngwladol Bangor</li> <li>• Sefydliad Cystadleuaeth ac Astudiaethau Caffael</li> <li>• Cyfraith yr UE</li> <li>• Cyfraith Cyllid Corfforaethol</li> <li>• Cyfraith Forol</li> <li>• Cyfraith Fasnachol a Chyfraith Cwmnïau</li> <li>• Cyfraith Weinyddol</li> <li>• Cyfraith Plant a Theulu</li> </ul>
Prifysgol Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfan ar gyfer Dadansoddeg Wleidyddol a Chyfreithiol</li> <li>• Canolfan Trosedd, y Gyfraith a Chyfiawnder Caerdydd</li> <li>• Canolfan Cyfraith Ewropeaidd a Llywodraethu</li> <li>• Canolfan Hawliau Dynol a Chyfraith Gyhoeddus</li> <li>• Canolfan Cyfraith Iechyd a Gofal Cymdeithasol</li> <li>• Canolfan y Gyfraith a Chrefydd</li> <li>• Canolfan y Gyfraith a Chymdeithas</li> <li>• Canolfan Ymchwil Labordy'r Gyfraith</li> <li>• Cyfraith Fasnachol Ryngwladol</li> <li>• Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar</li> </ul>
Coleg Caerdydd a'r Fro	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparwr LTC4 (Cynghrair Ardystio Cymwyseddau Craidd Technoleg Gyfreithiol)</li> <li>• Darparwr CILEx (Gweithredydd Cyfreithiol Siartredig)</li> <li>• Gweinyddiaeth Gyfreithiol Sefydliad y Ddinas a'r Urddau</li> </ul>
Coleg Gŵyr Abertawe	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gradd Sylfaen mewn Cyfiawnder Droseddol (a ddilysir gan Brifysgol De Cymru)</li> </ul>
Prifysgol Abertawe - Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfan Gyfreithiol Prifysgol Abertawe</li> <li>• Canolfan Cyfiawnder Troseddol a Throseddeg</li> <li>• Canolfan Arloesedd ac Entrepreneuriaeth yn y Gyfraith (CIEL)</li> <li>• Legaltech / Lawtech – gan gynnwys clinig cyfreithiol ar gyfer busnesau technoleg newydd, hacathonau, cyrsiau dwys a hyfforddiant codio i fyfyrwyr y gyfraith.</li> <li>• Canolfan Cudd-wybodaeth Bygythiadau Seiber</li> <li>• Sefydliad Cyfraith Llongau a Masnach Ryngwladol</li> <li>• Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc</li> <li>• Awdurdodaeth</li> </ul>

Sefydliad	Arbenigeddau Gwasanaethau Cyfreithiol
Prifysgol De Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol De Cymru</li> <li>• Darparwr LTC4 (Cyngrhair Ardystio Cymwyseddau Craidd Technoleg Gyfreithiol)</li> <li>• Cyfraith Eiddo Deallusol a Chyfrinachedd</li> <li>• Seiberddiogelwch</li> </ul>
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparwr CILEx</li> <li>• Cyfraith Sector Cyhoeddus</li> <li>• Cyfraith Busnes</li> <li>• Cyfraith Cytundebau</li> <li>• Cyfraith Eiddo</li> </ul>
Coleg y Cymoedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diploma Lefel 3 CILEx yn y Gyfraith ac Ymarfer</li> </ul>

Ffigur 8: Sefydliadau Academaidd yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau gwasanaethau cyfreithiol ac arbenigeddau ymchwil cysylltiedig<sup>74</sup>

94. Ni all myfyrwyr gymhwyso'n gyfreithiwr ar hyn o bryd heb basio'r Cwrs Sgiliau Proffesiynol (PSC). Cwrs modiwlaidd ydyw, sydd â'r nod o sicrhau eu bod wedi cyrraedd y lefel briodol o sgiliau a gwybodaeth yn ystod y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) a'r contract hyfforddiant. Y contract hyfforddiant, neu gyfnod o hyfforddiant cydnabyddedig, yw'r cam olaf ar y llwybr tuag at gymhwyso'n gyfreithiwr. Dyma'r cam lle mae myfyrwyr yn rhoi'r holl wybodaeth a'r sgiliau a ddysgwyd ganddynt ar waith, ac yn datblygu'r rhain hyd yn oed ymhellach o fewn amgylchedd gwaith. Mae'r contract hyfforddiant fel arfer yn cynnwys cyfnod o ddwy flynedd a dreulir yn gweithio mewn cwmni cyfreithwyr.

95. Cadarnhaodd yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ym mis Ebrill 2017, o fis Awst 2020, y bydd yr Arholiad Cymhwyso newydd i Gyfreithwyr (SQE), sef cwrs newydd yn y gyfraith i ôl-raddedigion,

yn disodli'r system gymhwyso bresennol, gan gael gwared ar y gofyniad i gwblhau'r LPC a chreu un arholiad cyffredin i raddedigion sy'n ceisio cymhwyso'n gyfreithwyr<sup>75</sup>.

96. Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx<sup>76</sup>) yw'r corff proffesiynol sy'n llywodraethu addysg a hyfforddiant Gweithredwyr Cyfreithiol Siartredig. Mae CILEx yn cynnig llwybrau hyfforddiant amrywiol tuag at y sector cyfreithiol ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth ag addysg bellach ac addysg uwch. Gall ysgrifenyddion cyfreithiol ymuno â'r proffesiwn gydag un dystysgrif TGAU i Ddiploma Uwch Lefel 6. Bellach, gall amrywiaeth o gymwysterau perthnasol gael eu hastudio'n hyblyg/rhan amser drwy ddarparwyr sy'n cynnwys Coleg Gwent, Coleg Caerdydd a'r Fro, Brightlink Learning a Pitman Training yn lle cwrs llawn amser.

<sup>74</sup> Gwybodaeth wedi'i choladu o wefannau darparwyr, canllawiau i gyrsiau, UCAS a thrafodaethau gyda darparwyr. Mae'n bosibl nad yw'r arbenigeddau ymchwil a restrir yn hollgynhwysfawr, ac maent yn canolbwyntio ar feysydd rhagoriaeth penodol. .

<sup>75</sup> Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr, 2017 <https://sra.org.uk/solicitorexam/>

<sup>76</sup> Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol <https://www.cilex.org.uk/>

<sup>77</sup> LTC4 <http://www.ltc4.org/>

97. Mae LTC4 (Cynghrair Ardystio Cymwyseddau Craidd Technoleg Gyfreithiol<sup>77</sup>) yn sefydliad nid er elw sydd wedi pennu cymwysterau craidd technoleg gyfreithiol ac ardystio y gall pob cwmni cyfreithwyr eu defnyddio i fesur gwelliannau effeithlonrwydd parhaus. Mae ei darparwyr hyfforddiant yn ymrwymedig i helpu LTC4 i bennu safon diwydiant ar gyfer cymhwysedd technoleg. Fel aelodau, maent yn cael mynediad at y cymwyseddau craidd ac efallai y byddant yn gallu helpu eu cleientiaid i ennill tystysgrif LTC4.

98. Prifysgol De Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro yw sefydliadau academaidd cyntaf y DU i ddod yn aelodau o LTC4, sef sefydliad sy'n gosod y safon fyd-eang ar gyfer medrusrwydd mewn technoleg gyfreithiol mewn llifau gwaith bywyd go iawn safon diwydiant. Mae cwmnïau cyfreithwyr blaenllaw yn yr UD, Canada ac Ewrop, gan gynnwys Allen & Overy, Linklaters a DLA Piper yn defnyddio cymwyseddau craidd technoleg gyfreithiol LTC4 er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i barhau'n gystadleuol nawr ac yn y dyfodol. Bydd Prifysgol De Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro yn ymgorffori'r cymwyseddau ym modiwlau ymarferol eu cwricwla; gan sicrhau bod myfyrwyr yn meddu ar y sgiliau digidol hollbwysig yn ogystal â'r arbenigedd academaidd sy'n berthnasol i'r gweithle modern.

# Llywodraeth Cymru a Datblygu Economaidd

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

99. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant i wneud Cymru yn wlad lewyrchus, gydnherth, iachach, fwy cyfartal a chyfrifol yn fyd-eang â chymunedau cydlynus, diwylliant bywiog a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae Datganiad Llesiant 2017 Llywodraeth Cymru<sup>78</sup> yn nodi'r ffordd rydym yn gweithredu i fodloni gofynion y Ddeddf.

100. Yn ogystal â chyfrannu at gyflawni ei nodau llesiant, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, hefyd ystyried y pum ffordd o weithio fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy:

- **Hirdymor** – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir, yn enwedig lle y gall yr hyn a wneir i ddiwallu anghenion byrdymor gael effaith hirdymor niweidiol.
- **Integreiddio** – ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle gall camau a gymerwyd gan y corff gyfrannu at un amcan, ond gall fod yn niweidiol i gyflawni un arall.
- **Cynnwys** – sicrhau bod pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant yn cael eu cynnwys, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl a wasanaethwn.
- **Cydweithio** – cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o Lywodraeth Cymru ei hun) lle y gallai hynny helpu i fodloni amcanion

llesiant Llywodraeth Cymru neu helpu sefydliad arall i fodloni ei amcanion ei hun.

- **Atal** – sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

101. Mae'r Ddeddf yn ffactor hanfodol i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n cynnig gwell prosesau gwneud penderfyniadau drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr hirdymor yn well, yn helpu i atal problemau, yn mabwysiadu ymagwedd integredig a chydweithredol ac yn cynnwys pobl. Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio wedi'u cynllunio i gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol

102. Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw adeiladu Cymru lewyrchus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac sy'n dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig. Mae ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen<sup>79</sup>, yn nodi'r prif ymrwymïadau y byddwn yn eu cyflawni rhwng nawr a 2021.

103. Mae *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol*<sup>80</sup> yn cyfeirio at yr ymrwymïadau allweddol hynny yn Symud Cymru Ymlaen, yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor, ac yn nodi sut maent yn cyd-fynd â gwaith gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru i osod y sylfeini ar gyfer ffyniant i bawb. Mae'n ymrwymïad i ffordd newydd o weithio: un sy'n cydnabod yr heriau a wynebhir heddiw, y Gymru a garem yn y dyfodol a'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod.

<sup>78</sup> Datganiad Llesiant Llywodraeth Cymru 2017 <http://gov.wales/docs/strategies/170919-wellbeing-statement-cy.pdf>

<sup>79</sup> Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 <http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

<sup>80</sup> Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol, 2017 <http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>



104. Ein nod yw creu economi i Gymru sy'n lledaenu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant unigol a chenedlaethol. Byddwn yn galluogi pobl i gyflawni eu huchelgeisiau a gwella eu llesiant drwy gyflogaeth ddiogel a chynaliadwy. Byddwn yn dileu'r rhwystrau y mae llawer yn eu hwynebu i gael swydd, a chreu'r amgylchedd cywir i fusnesau dyfu a ffynnu.

105. Mae ein Strategaeth Genedlaethol *Ffyniant i Bawb*: hefyd wedi cynnwys adolygu amcanion llesiant cychwynnol y Llywodraeth o fis Tachwedd 2016 a'u diwygio; fel y bydd gan y Llywodraeth un set o amcanion, a chamau cysylltiedig i'w cyflawni. Ein hamcanion diwygiedig sydd wedi'u pennu ar gyfer y tymor llywodraeth hwn (2016-2021) yw:

- cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg
- ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas at y dyfodol
- hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell
- cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial
- meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes
- grymuso pawb â'r sgiliau addas ar gyfer byd sy'n newid
- meithrin cymunedau cadarn, diwylliant, ac iaith
- darparu seilwaith modern a chysylltiedig
- hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

### **Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi**

106. Mae ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi newydd<sup>81</sup> a gyhoeddwyd yn 2017, yn nodi sut

y byddwn yn gweithio gyda byd busnes ac eraill i adeiladu ar ein sylfeini economaidd, diogelu busnesau at y dyfodol a grymuso lleoedd a phobl i ddod yn fwy cynhyrchiol.

107. Mae'r Cynllun yn cefnogi agenda Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru a'i hymagwedd ehangach tuag at lesiant cenedlaethau'r dyfodol ac yn cysoni â hynny. Mae'n canolbwyntio ar gyflawni'r ddau nod, sef cyfoeth a llesiant, drwy gydberthynas fwy dynamig a chydweithredol â byd busnes drwy gyfrwng newydd Contract Economaidd a Meysydd Gweithredu.

108. Ers 2009, rydym wedi mynd ati i gefnogi meysydd strategol allweddol yr economi drwy gefnogi sectorau unigol, y mae llawer ohonynt fel y diwydiannau creadigol a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol wedi bod yn llwyddiannau mawr. Fodd bynnag, mae grymoedd megis datgarboneiddio, awtomeiddio, deallusrwydd artifisial a mathau eraill o ddigideiddio eisoes yn trawsnewid diwydiannau a chwmnïau unigol, gan chwlu'r ffiniau traddodiadol rhwng gwahanol sectorau o'r economi. Mae cyfleoedd y chwyldro data, er enghraifft, yn ysgogi cydweithrediadau rhwng sectorau'n fwyfwy. Mae ein Cynllun yn anelu at lunio ein cymorth o'r newydd mewn ffordd a all helpu i adeiladu diwydiannau'r dyfodol.

109. Er mwyn ysgogi effeithiau ehangach o'n hymyriadau, rydym yn sefydlu Contract Economaidd newydd â byd busnes yng Nghymru. Bydd hyn yn fuddiol i fusnesau a Llywodraeth Cymru am y byddwn yn defnyddio'r Contract Economaidd i lunio cydberthynas newydd a dynamig â byd busnes sy'n seiliedig ar egwyddor buddsoddi cyhoeddus sydd â diben cymdeithasol.

110. Bydd y Contract Economaidd yn helpu i sicrhau twf cynhwysol drwy ofyn i fusnesau ymrwymo i dwf, gwaith teg, lleihau ôl traed carbon, iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle. Mae hyn yn adlewyrchu'r

<sup>81</sup> Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, 2017 <http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf>

math o ymddygiadau y mae busnesau cyfrifol a llwyddiannus eisoes yn ei hyrwyddo. Byddwn yn cydnabod y busnesau hynny sydd eisoes yn cymryd camau i fabwysiadu'r arferion busnes a chyflogaeth cyfrifol hyn a byddwn yn annog eraill i ddilyn llwybr tebyg.

111. Er bod y Contract Economaidd yn ceisio hyrwyddo arferion busnes cyfrifol a thwf cynhwysol, bydd y Meysydd Gweithredu yn herio busnesau a Llywodraeth Cymru i gyd-fuddsoddi yn y mathau o weithgarwch buddsoddi a fydd yn diogelu'r busnesau hynny a'r economi ehangach at y dyfodol.

112. Er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid busnes yn y dyfodol, bydd yn ofynnol i fusnesau ddatblygu cynigion sy'n gyson ag o leiaf un o'r pum Maes Gweithredu:

- Datgarboneiddio
- Arloesedd, Entrepreneuriaeth a Phencadlysoedd
- Allforion a Masnach
- Cyflogaeth o Ansawdd Uchel, Datblygu Sgiliau a Gwaith Teg
- Ymchwil a Datblygu, Awtomeiddio a Digiddeiddio.

## Cysylltiadau â Strategaeth Llywodraeth y DU

113. Credwn fod gorgyffwrdd amlwg rhwng Heriau Mawr Strategaeth Llywodraeth y DU<sup>82</sup> a'n Meysydd Gweithredu. Mae pum sylfaen Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU a'r amcanion yn ein Cynllun yn ategu ei gilydd, ac mae'r naill a'r llall yn rhannu'r ddealltwriaeth bod cynhyrchiant sy'n gwaethygu yn wendid strwythurol craidd yn economïau Cymru a'r DU.

114. Mae'r themâu cyffredin hyn yn rhoi hyder a sicrwydd i fyd busnes ynglŷn â'n hymrwymiad

i weithio gyda Llywodraeth y DU ac eraill i helpu busnesau presennol i ymaddasu at newid a hyrwyddo diwydiannau a busnesau'r dyfodol.

115. Bydd y newidiadau a nodir yn ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cefnogi ein gallu i gystadlu am y cyllid a gyhoeddwyd yn Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Mae hyn yn cynnwys ein gwahoddiad i grwpiau o fusnesau ddod ynghyd i ddatblygu cynigion drwy ein Meysydd Gweithredu a'r potensial i ddefnyddio'r cynigion gorau o blith y rhain i gystadlu am Gynigion Sector Llywodraeth y DU a buddsoddiad y Gronfa Her.

## Mewnfuddsoddi

116. Mae busnesau yn y DU ac o dan berchenogaeth ryngwladol sy'n buddsoddi yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd lleol sylweddol drwy feysydd megis cadwyn gyflenwi, rhyngweithio academiaidd a datblygu sgiliau. Maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth, gan ddarparu ar gyfer pob lefel o allu a chynnig cyfleoedd i bawb gamu ymlaen yn eu gyrfa. Maent hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ein sefyllfa o ran allforion gan fod cymaint o'u cynhyrchion a'u gwasanaethau yn cael eu dosbarthu'n rhyngwladol.

117. Mae gan Gymru economi agored sy'n edrych tuag allan ac mae'n gyrchfan hirsefydledig i fuddsoddi uniongyrchol tramor yn ogystal â buddsoddi o rannau eraill o'r DU; mae'r naill a'r llall yn hollbwysig i economi Cymru.

118. Mae ein cymorth i fuddsoddwyr yn amrywio ond mae wedi'i deilwra i fodloni gofynion y cwmni. Mae'n amrywio o gynnig un pwynt cyswllt penodol i ateb ymholiadau, i weithgarwch ac iddo fwy o ffocws megis nodi eiddo addas neu gynnig cymorth ariannol. Mae ymwneud Gweinidogion, yn

<sup>82</sup> Industrial Strategy: building a Britain fit for the future, 2017 <https://www.gov.uk/government/publications/industrial-strategy-building-a-britain-fit-for-the-future>

ddi-os, wedi bod yn ffactor hollbwysig wrth sicrhau rhai llwyddiannau diweddar; mae hyn yn anfon neges glir at gwmnïau ein bod o ddifrif am ddenu eu buddsoddiad. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi cwmnïau ar ôl iddynt gyrraedd Cymru. Mae gennym raglen ôl-ofal gynhwysfawr a rheolwyr cyfrif penodedig lle y bo'n briodol.

119. Mae buddsoddi i mewn i Gymru gan gwmnïau o'r tu allan i Gymru, gan gynnwys rhannau eraill o'r DU, wedi cyrraedd ei lefelau uchaf erioed yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn brawf o enw da Cymru fel lle gwydych i gynnal busnes a thystiolaeth bod ein dulliau gweithredu sy'n ystyriol o fusnesau yn talu ar ei ganfed.

## Caffael

120. Mae pob ymarfer caffael yn y sector cyhoeddus yn ddarostyngedig i Gyfarwyddebau Caffael Sector Cyhoeddus, sef fframwaith cyfreithiol sy'n annog cystadleuaeth rydd ac agored a gwerth am arian yn unol â rhwymedigaethau a rheoliadau y cytunir arnynt yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Caiff ein holl gyfleoedd eu hysbysebu yn unol â chytuniad egwyddorion:

- dim gwahaniaethu
- symud nwyddau'n ddirwysr
- rhyddid i ddarparu gwasanaethau
- rhyddid i sefydlu.

121. Yn ogystal â'r egwyddorion hanfodol hyn o dan y cytuniad, mae rhai egwyddorion cyfreithiol cyffredinol wedi datblygu o gyfraith achos Llys Cyfiawnder Ewrop. Yr egwyddorion pwysicaf o blith yr egwyddorion cyffredinol hyn yng nghyd-destun caffael yw:

- triniaeth gyfartal
- tryloywder

- cydnabyddiaeth gilyddol
- cymesuredd.

122. Fel y cyfryw, ni allwn ragnodi Cyflenwyr yng Nghymru ar hyn o bryd, am fod yn rhaid inni ddilyn rheolau'r Cyfarwyddebau hyn. Fodd bynnag, rydym yn gwneud pob ymdrech i ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad er mwyn sicrhau bod ein cyflenwyr yng Nghymru yn ymwybodol o'r cyfleoedd rydym yn eu hysbysebu ac yn rhoi cyfle iddynt gystadlu ar sail gyfartal.

123. Caiff pob un o gyfleoedd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) ei hysbysebu mewn ffordd agored, deg a thryloyw ar wefan GwerthwchiCymru<sup>83</sup>. Ni chodir tâl ar gyflenwyr i gofrestru ar y wefan hon ac yna byddant yn cael rhybuddion am ddim i mewn i'w mewnflwch pryd bynnag y caiff cyfle addas yn eu maes categori penodol ei hysbysebu.

124. Fel rhan o'r ffordd y caiff Categorïau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol eu rheoli, rydym yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r farchnad cyn caffael er mwyn helpu cyflenwyr yng Nghymru i baratoi ar gyfer y cyfle. Er enghraifft, mewn digwyddiadau i gyfreithwyr, gweithiodd y GCC ochr yn ochr â Busnes Cymru a sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Llywodraeth Cymru i gynnal digwyddiadau lle gallent glywed barn cyflenwyr. Rhoddodd swyddogion gymorth hefyd i brifysgol Bangor a phrifysgol Caerdydd yn Procurex<sup>84</sup>; y llwyfan caffael yng Nghymru i gwmnïau sydd am ddarparu gwasanaethau i'r sector cyhoeddus.

125. Cafodd y GCC ddeialog helaeth hefyd â chyrff cynrychioliadol yng Nghymru sy'n gweithio yn y sector er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'n cynlluniau. Lle y gofynnwyd am hynny, rhoesom gymorth i gwmnïau yng Nghymru ddeall a pharatoi'r broses gaffael yn fwy effeithiol ar sail un i un.

<sup>83</sup> GwerthwchiCymru <https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/>

<sup>84</sup> Yn cael ei gynnal 8 Tachwedd 2018 <http://www.procurexlive.co.uk/wales/>

<sup>85</sup> Datganiad Polisi Caffael Cymru <https://gov.wales/topics/improvingservices/better/vfm/publications/procurement-policy-statement/?lang=cy>

126. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru<sup>85</sup> yn ymgorffori caffael moesegol a chynaliadwy wrth wraidd polisi caffael cyhoeddus yng Nghymru. Mae canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf yn amlinellu'r disgwyliad y bydd cyrff cyhoeddus yn cymhwyso Polisi Caffael Cymru er mwyn helpu i gyflawni eu dyletswydd o ran llesiant.

## **Cymorth Busnes a Buddsoddi Llywodraeth Cymru**

127. Mae strategaeth cymorth busnes Llywodraeth Cymru yn cwmpasu'r meysydd canlynol yn fras:

- Cyngor a Chymorth Busnes i fusnesau newydd a busnesau bach a chanolig (BBaChau)
- Cymorth Rheoli Cydberthnasau i Fusnesau Sefydledig
- Atebion Eiddo
- Cymorth i Fasnachu ac Allforio
- Datblygu Sgiliau
- Cymorth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi
- Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth
- Cyllid ar gyfer Twf

## **Cyngor a Chymorth Busnes i fusnesau newydd a BBaChau**

### **Busnes Cymru**

128. Mae Busnes Cymru<sup>86</sup> yn wasanaeth dwyieithog am ddim sy'n rhoi cymorth a chynghor busnes i bobl sy'n dechrau, yn rhedeg ac yn tyfu busnes yng Nghymru. Gyda rhwydwaith o swyddfeydd ledled Cymru, mae'n cynnig cymysgedd o gymorth ar-lein ac wyneb i wyneb, yn ogystal â gweithdai hyfforddiant a chynghor unigol. Hefyd, Busnes Cymru yw'r prif borth mynediad i entrepreneuriaid a busnesau nad ydynt wedi ymwneud â Llywodraeth

Cymru yn flaenorol er mwyn holi am y cymorth sydd ar gael iddynt.

129. Mae Busnes Cymru yn cynnig cymorth cyn dechrau busnes a chymorth i ddechrau busnes, gan gynnwys Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein, cymorth wyneb yn wyneb, rhwydweithio, nodi cyfleoedd ariannu a gweithdai.

130. Gall busnesau sy'n cynllunio twf sylweddol neu sy'n mynd drwyddo gael gafael ar y cymorth a roddir gan Reolwyr Cydberthnasau Busnes Cymru. Mae hwn yn wasanaeth arbenigol sy'n cyfuno amrywiaeth unigryw gwasanaethau Busnes Cymru â phartneriaid a rhwydweithiau wedi'u brocera a ddewiswyd yn ofalus.

### **Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru**

131. Mae Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru<sup>87</sup> yn cynnig cymorth unigol i fusnesau cyn reffeni twf uchel a BBaChau. Mae'n cael ei ddarparu gan dîm o entrepreneuriaid profiadol iawn sydd ag enw am gyflawni twf uchel, yn seiliedig ar yr athroniaeth mai'r bobl orau i gynghori entrepreneuriaid yw entrepreneuriaid. Mae'r rhaglen wedi'i thargedu at fusnesau twf uchel sydd am symud ymlaen i'w cam twf nesaf ac sydd â'r potensial a'r penderfyniad i'w gyrraedd.

### **Cymorth Datblygu Busnes i Fusnesau Sefydledig**

132. Ar gyfer cwmnïau sefydledig a'r rhai sy'n dangos y gallu i dyfu'n gyflym, mae gan dimau Sector Llywodraeth Cymru Reolwyr Datblygu Busnes penodol i roi cymorth i fusnesau a chymorth ei bartneriaid i ddileu rhwystrau i dyfu.

133. Y tîm Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol sy'n gyfrifol am weithio gyda'r sector Gwasanaethau Cyfreithiol, gan roi cymorth i gwmnïau cynhenid a mewnfuddsoddwyr ddechrau a chynyddu eu gweithrediadau yng Nghymru.

<sup>86</sup> Llinell Gymorth Busnes Cymru 03000 6 03000 <https://businesswales.gov.wales/>

<sup>87</sup> Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru <https://businesswales.gov.wales/growth/>

134. Mae cwmnïau cynhenid yng Nghymru a mewnfuddsoddwyr wedi cael budd o gymorth ariannol ac anariannol y tîm sector. Mae gan y tîm Sector arweinydd penodol dros Wasanaethau Cyfreithiol y mae ei rôl yn cynnwys gweithio gyda'r canlynol:

- y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru er mwyn deall y cyfleoedd a'r rhwystrau rhag twf
- mewnfuddsoddwyr i'w hysbysu o'r hyn a gynigir i fusnesau yng Nghymru a'u helpu i sefydlu gweithrediadau yng Nghymru.

135. Mae'r tîm sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol wedi meithrin cydberthnasau â chymdeithasau masnach a rheoleiddwyr y proffesiwn cyfreithiol, gan gynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfreithiol, a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr i ddeall tirwedd strategol ehangach gwasanaethau cyfreithiol yn y DU ac yn rhyngwladol er mwyn llywio'r broses o ddatblygu polisïau.

### **Atebion Eiddo**

136. Er mai dim ond rhan o 'gynnig economaidd Cymru' yw eiddo, gall argaeledd y safle neu'r eiddo priodol fod yn hanfodol i ennill prosiect mewn cystadleuaeth â rhanbarthau eraill yn y DU yn ogystal â chystadleuwyr rhyngwladol.

137. Fel rhan o gydberthynas Datblygu Busnes cwmni â Llywodraeth Cymru, gall gael gafael ar gymorth pwrpasol i ddod o hyd i safle addas ledled Cymru. Mae timau Sectorau a Busnes yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol ym maes eiddo er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd a fyddai'n addas ar gyfer amgylchiadau'r busnes hwnnw.

138. Mae marchnadoedd tir ac eiddo yn amrywio'n fawr ledled Cymru ac mae'r isranbarthau yn gofyn am ddulliau cyflawni gwahanol. Ceir ardaloedd lle mae galw mawr ac mae'r farchnad yn cynnig ateb priodol a fforddiadwy o ran eiddo. Mewn ardaloedd eraill, ni all y cyflenwad o eiddo symbylu galw na'i ateb heb ymyrraeth gan y llywodraeth i ddarparu'r math o eiddo sydd ei angen ar fusnes.

139. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau eang eu cwrpas i gaffael, gwaredu, rheoli, datblygu ac ariannu gweithgarwch ym maes eiddo gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Gall y bwerau hyn gael eu defnyddio i sicrhau cyflenwad digonol o safleoedd ledled Cymru sy'n gallu diwallu anghenion busnesau a phrosiectau datblygu economaidd o bwys strategol, a chynnig swyddfeydd lle nad yw'r sector preifat yn ddigon gweithredol.

140. Mae Cronfa Ddata Eiddo Busnes Cymru<sup>88</sup> yn adnodd chwilio ar-lein ar gyfer tir ac eiddo masnachol, sydd ar gael i'w gwerthu a'u rhentu ledled Cymru, y gellir ei didoli yn ôl maint eiddo, math a deiliadaeth. Caiff y manylion ar y Gronfa Ddata eu llunio drwy wybodaeth a ddarperir gan berchenogion eiddo, asiantau masnachol a'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r adnodd chwilio yn galluogi pobl i ddod o hyd i sawl math o eiddo masnachol a thir yng Nghymru, gan gynnwys swyddfeydd, safleoedd diwydiannol a warysau, tir masnachol sydd ar gael i'w ddatblygu ac eiddo o fewn Ardaloedd Menter.

### **Cymorth i Fasnachu ac Allforio**

141. Mae TheCityUK yn amcangyfrif bod allforion gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru yn werth cyfanswm o £30m yn 2016, gan gyfrif am 22% o holl allforion gwasanaethau proffesiynol yn ystod y flwyddyn honno.<sup>89</sup>

<sup>88</sup> Cronfa Ddata Eiddo Busnes Cymru <https://businesswales.gov.wales/cy/cronfa-ddata-eiddo>

<sup>89</sup> EXPORTING FROM ACROSS BRITAIN: Financial and Related Professional Services, TheCityUK, 2018 <https://www.thecityuk.com/assets/2018/Reports-PDF/Exporting-from-across-Britain.pdf>

142. Rydym yn cydnabod bod allforio yn ffactor sy'n ysgogi ac yn galluogi twf a'i fod yn creu cyfle economaidd i unigolion a busnesau. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i fusnesau gynyddu eu gallu i allforio drwy ganolbwyntio ar ddileu'r rhwystrau mewn pedwar maes allweddol:

- ysbrydoli cwmnïau i weld allforio fel cyfrwng i dyfu
- trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau er mwyn helpu cwmnïau i gynyddu eu gallu i allforio
- helpu cwmnïau i gysylltu â darpar gwsmeriaid dramor
- cefnogi ymweliadau â marchnadoedd dramor.

143. Cyflawnir y nodau hyn gan gynghorwyr profiadol ar allforio gyda chymorth pum rhaglen:

- Digwyddiadau yng Nghymru
- Rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol
- Rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol
- Digwyddiadau dramor (gan gynnwys teithiau masnach)
- Cynllun grant Ymweliadau Datblygu Busnes Dramor.

144. Gall cwmnïau yng Nghymru hefyd gael gafael ar y cymorth a gynigir gan Lywodraeth y DU, megis Cyllid Allforio'r DU<sup>90</sup> (UKEF) a mynediad at gyfleoedd busnes; mae ein rhaglenni yn ategu'r cymorth hwnnw, gan leihau unrhyw amryfusedd i fusnesau i'r eithaf.

145. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen o weithgarwch datblygu busnes ar fasnachu ac yn cynnig amrywiaeth o gymorth i allforwyr sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion pob cwmni. Mae ein gweithgarwch craidd wedi'i ysgogi gan ein rhaglen o ddigwyddiadau dramor a gyhoeddir bob blwyddyn ac sy'n galluogi cwmnïau i deithio i farchnadoedd er mwyn cwrdd â chwsmeriaid neu fynd i arddangosfeydd a sioeau masnach.

146. Mae'r gweithgarwch hwn yn cynnwys cymysgedd o farchnadoedd newydd a datblygol a all fod yn anos eu cyrraedd, megis Singapôr, yn ogystal â marchnadoedd mwy traddodiadol lle mae nifer gymharol fach o rwystrau i'w goresgyn gan fusnesau o Gymru, megis yr Iseldiroedd ac UDA. Mae hyn yn ein galluogi i ychwanegu gwerth i allforwyr mwy profiadol a hefyd sicrhau y gall allforwyr mwy newydd ystyried allforio mewn amgylchedd diogel.

147. Mae tîm sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol a thîm Rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i helpu i hyrwyddo sefydliadau academaidd Cymru yn rhyngwladol a meithrin eu rhwydweithiau o gyn-fyfyrwyr, er enghraifft drwy gysylltiadau Prifysgol Bangor ag ysgolion y gyfraith yn Tsieina.

### **Datblygu Sgiliau**

148. Un ffocws allweddol y negeseuon sy'n gysylltiedig â Chymru fel cyrchfan i fusnesau fuddsoddi ynddo yw'r rhaglenni sgiliau a hyfforddiant cystadleuol a gynigir i fusnesau, a dyfnder y gronfa o dalent sydd ar gael i amrywiaeth eang o sefydliadau gwasanaethau proffesiynol.

149. Mae Tîm Meithrin Cysylltiadau â Chyflogwyr ar gyfer Cymorth Sgiliau Llywodraeth Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr i ddiwallu anghenion prosiectau ehangu cynhenid sylweddol a darpar fuddsoddwyr o dramor am sgiliau fel ei gilydd. Mae'r tîm yn ategu'r timau Sectorau a Busnes sy'n arwain pecyn cymorth Llywodraeth Cymru i'r prosiectau hyn ac yn cydweithredu â hwy.

150. Mae hyn yn sicrhau y gall cyflogwyr a darpar fuddsoddwyr feithrin cydberthnasau cynhyrchiol â darparwyr hyfforddiant, yn enwedig Addysg Uwch ac Addysg Bellach, nid yn unig i gael gafael ar yr hyfforddiant angenrheidiol ond hefyd i ddylanwadu ar ddarpariaeth yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod

<sup>90</sup> Cyllid Allforio'r DU <https://www.gov.uk/government/organisations/uk-export-finance>

gweithgarwch hyfforddiant a datblygu Cymru yn parhau i ddiwallu anghenion ein cyflogwyr.

### **Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**

151. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar waith i ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau drwy ddatblygu ymatebion sy'n seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol. Y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw:

- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru<sup>91</sup>
- Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd<sup>92</sup>
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru<sup>93</sup>.

152. Caiff y partneriaethau y dasg o ddadansoddi heriau economaidd a meysydd twf tebygol er mwyn nodi'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu. Maent yn llunio Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol i ddadansoddi a dylanwadu ar y ddarpariaeth o sgiliau yn seiliedig ar anghenion economaidd rhanbarthol, er mwyn cefnogi twf a phrosiectau seilwaith allweddol ym mhob rhanbarth. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn dylanwadu ar flaenoriaethu a defnyddio cyllid sgiliau.

153. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn paratoi cyfres o dri Adroddiad Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Ranbarthol er mwyn rhoi cyfres gyson o wybodaeth am y farchnad lafur graidd i Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sydd ar gael i fod yn sail i'w cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol.<sup>94</sup>

154. Mae'r tîm Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol yn cydweithio â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn helpu i ddatblygu

sgiliau ar gyfer y sector cyfreithiol, gan fynd i'r afael â gofynion uniongyrchol a hirdymor, a gweithio gyda sefydliadau academaidd a darparwyr sgiliau gyda'r nod o gyflenwi llif cyson o dalent yng Nghymru. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio gyda Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas Caerdydd i lunio canllaw sy'n amlinellu'r sgiliau a'r dalent sydd ar gael o bosibl yn y rhanbarth er mwyn helpu cwmnïau cynhenid i dyfu yn ogystal â chefnogi trafodaethau ar fewnfuddsoddi.

### **Prentisiaethau**

#### **Polisi a Chyflawni**

155. Mae ein Cynllun Prentisiaethau<sup>95</sup> wedi'i gysylltu'n strategol ar gyfer twf economaidd. Nid darparu 100,000 o brentisiaethau yng Nghymru yw nod y Cynllun hwn ynddo'i hun – mae wedi'i fireinio i lenwi bylchau mewn sgiliau. Mae'n ymwneud â hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gofynion cyflogwyr a dysgu ystod o sgiliau trosglwyddadwy i Brentisiaid a fydd yn para am oes.

156. Yn wahanol i Loegr, rydym yn mynd ati i sicrhau bod yr hyn a ddarperir yn rhoi enillion da i economi Cymru o ran sector a lefel. Er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r wlad, mae sail resymegol glir dros y ffordd y mae prentisiaethau yn cydweddu â'r cynllun ehangach ar gyfer cynhyrchiant a thwf.

157. Ein blaenoriaethau cyflawni yw:

- Mynd i'r afael â phrinder sgiliau mawr drwy ymestyn a datblygu prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau twf.
- Datblygu sgiliau lefel uwch, sy'n canolbwyntio ar brentisiaethau ar lefel 3 ac uwch, lle mae'r enillion yn tueddu i fod yn uwch a lle mae'r gwledydd Ewropeaidd mwyaf llwyddiannus yn cyflawni.

<sup>91</sup> Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru <https://northwaleseab.co.uk/cy>

<sup>92</sup> Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd <http://www.lskip.cymru/default.aspx>

<sup>93</sup> Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru <http://www.rlp.org.uk/?lang=cy/>

<sup>94</sup> Gellir lawrlwytho Adroddiadau ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur ar gyfer y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/partneriaethau-sgiliau-rhanbarthol>

<sup>95</sup> Cynllun Polisi Sgiliau Prentisiaethau, 2017 <https://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/apprenticeships-skills-policy-plan/?lang=cy>

- Gwella mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal, drwy helpu pobl i gael cyflogaeth sy'n newydd i'r gweithle a chanolbwyntio ar sut i gamu ymlaen yn y gweithle.
- Darparu Prentisiaethau yn Gymraeg, drwy gryfhau cyfleoedd i fwrw prentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Cynyddu nifer y prentisiaid 16-19 oed – gan gynnwys cynyddu nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol ac yn cael prentisiaeth.
- Datblygu llwybrau sgiliau - integreiddio prentisiaethau â'r system addysg ehangach.
- Sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu'r fframwaith er mwyn sicrhau bod prentisiaethau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion cyflogwyr ac yn ymateb i newidiadau yn y diwydiant.

### Y Lefi Prentisiaeth

158. Cynnig gan Lywodraeth y DU yw'r Lefi Prentisiaeth. Caiff ei gasglu drwy'r DU gyfan. Bydd pob cyflogwr (cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector) sydd â bil cyflogau o fwy na £3 miliwn bob blwyddyn yn talu'r lefi. Cyfradd y lefi yw 0.5% o'r bil cyflogau; mae lwfans o £15,000 y flwyddyn. Caiff y lefi ei dalu i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy'r broses TWE. Cafodd cyfradd a chwmpas y lefi eu pennu gan y Canghellor. Nid ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru.

159. Mae'r lefi prentisiaeth yn dreth cyflogaeth a godir gan Lywodraeth y DU, sy'n gwrthdaro'n uniongyrchol â chymwyseddau datganoledig. Mae gennym ein dull unigryw ein hunain ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru, sy'n cefnogi ein huchelgais ar gyfer Cymru lewyrchus a diogel<sup>96</sup>.

### Fframweithiau Prentisiaid sy'n ymwneud â'r Sector Cyfreithiol

160. Cyhoeddwyd Fframwaith Prentisiaeth Uwch Lefel 7 Ymarfer Cyfreithiol yn gyntaf ym mis

Mawrth 2015. Roedd Fframwaith Prentisiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Lefel 4 hefyd wedi bodoli cyn hynny. I ddechrau, roedd niferoedd da yn dewis prentisiaeth gyfreithiol Lefel 4, ond roedd y gyfradd adael yn eithaf uchel ac roedd y gyfradd lwyddo yn eithaf isel ac yna tynnodd CILEx y Diploma Lefel 4 mewn Darparu Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl hefyd. O ganlyniad, cafodd y fframwaith hwn ei dynnu'n ôl wedyn gan y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Sector Cyfreithiol (Sgiliau Er Cyfiawnder).

161. Wrth ddatblygu'r fframweithiau hyn ymgysylltodd Sgiliau Er Cyfiawnder â'r sector gwasanaethau cyfreithiol fel rhan o ofyniad i gynnal ymchwil i anghenion cyflogwyr. Cymerodd cyflogwyr megis Kennedys, Wragge & Co, Browne Jacobson, Lyons Davidson, New Law, Co-op Legal, RBS Legal a Dentons ran yn y broses o ddatblygu'r fframwaith Lefel 7. Credwn nad oes gan y cwmnïau hyn unrhyw weithrediadau sylweddol yng Nghymru. Hyd yma, nid oes neb yn y proffesiwn cyfreithiol wedi dewis dilyn y fframwaith hwn.

162. Ceir Prentisiaeth Uwch mewn Profiant a Thrawsgludo ar Lefelau 4 a 6. Fodd bynnag, nid oes nemor neb yn y proffesiwn cyfreithiol wedi dewis dilyn y fframwaith Lefel 6. O ganlyniad, mae'n debygol y caiff y Fframwaith Lefel 6 mewn Profiant a Thrawsgludo a'r fframwaith Lefel 7 mewn Ymarfer Cyfreithiol eu tynnu'n ôl er mwyn canolbwyntio ein Prentisiaethau Uwch ar Lefelau 4 a 5.

163. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddatblygu prentisiaethau gradd (Lefel 6). Byddwn yn rhoi cymorth prentisiaethau i'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwy barhau â Phrentisiaeth Uwch mewn Profiant a Thrawsgludo ar Lefel 4 a llawer o feysydd eraill rolau swyddi sy'n rhan o bractis cyfreithiol, gan gynnwys prentisiaethau mewn cyfrifon, TG, a rheoli.

<sup>96</sup> Polisi Prentisiaethau Llywodraeth Cymru <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/prentisiaethau>



## **Addysg Bellach, Uwch a Phroffesiynol**

164. Mae tîm sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau academaidd a'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru i'w helpu i ddeall anghenion sgiliau'r sector a'i ofynion o ran talent nawr ac yn y dyfodol.

165. Lansiyd Canolfan Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Prifysgol De Cymru<sup>97</sup> gan y Prif Weinidog yn 2012. Mae'n cynnig canolfan addysgol gyda'r nod o gyflwyno cyrsiau ar gyfer cwmnïau a chyflogeion yn Ardal Fenter Caerdydd Ganolog, gan gynnwys cwmnïau cyfreithwyr. Mae hefyd yn parhau i adeiladu ar enw da'r Brifysgol am fod yn aelod pwysig o'r gymuned fusnes, drwy arwain y ffordd o ran cynnig dysgu seiliedig ar waith a chysiau gradd wedi'u cymeradwyo gan y diwydiant.

166. Gan weithio gyda tîm sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Llywodraeth Cymru a LSKiP, Prifysgol De Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro oedd y sefydliadau academaidd cyntaf yn y DU i fod yn aelodau o LTC4<sup>98</sup> yn 2017.

167. Bydd Prifysgol De Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro yn ymgorffori cymwyseddau LTC4 ym modiwlau ymarferol eu cwricwlâ; gan sicrhau bod myfyrwyr yn meddu ar y sgiliau digidol hollbwysig yn ogystal â'r arbenigedd academaidd sy'n berthnasol i'r gweithle modern. Bydd hyn yn helpu cymuned gwasanaethau cyfreithiol Cymru i arloesi ac arallgyfeirio yn eu gweithrediadau, er enghraifft drwy ehangu i farchnadoedd rhyngwladol a manteisio ar y cyfleoedd y gall technoleg sy'n datblygu eu cynnig.

168. Hwylusodd tîm Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Llywodraeth Cymru gyflwyniad rhwng y Swyddfa Eiddo Deallusol a Phrifysgol De Cymru er mwyn helpu'r Swyddfa i hyfforddi ei staff cyfreithiol.

169. Mae tîm Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda CILEx a sefydliadau academaidd i ddatblygu eu meysydd llafur. Mae Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx<sup>99</sup>) yn cynnig amrywiol lwybrau hyfforddiant i mewn i'r sector cyfreithiol ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth ag addysg bellach ac uwch. Gellir bellach astudio ar gyfer nifer o gymwysterau perthnasol yn hyblyg/rhan amser drwy Goleg Gwent, Coleg Caerdydd a'r Fro, Brightlink Learning a Pitman Training yn lle cwrs llawn amser.

170. Gweithiodd tîm sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Llywodraeth Cymru yn agos gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, Theodore Huckle CF, ar ddatblygu rhaglen hyfforddiant i fargyfreithwyr mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, wedi'i ysgogi gan yr angen am sylfaen sgiliau fwy amrywiol yn y Bar yng Nghymru. Cyfrannodd y trafodaethau hyn at sefydlu Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar Prifysgol Caerdydd<sup>100</sup>.

171. Mae tîm Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Llywodraeth Cymru yn hwyluso cyflwyniadau i ystyried cyfleoedd i gydweithredu ar ymchwil, er enghraifft drwy Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, a chymryd rhan mewn dysgu sy'n canolbwyntio ar y diwydiant megis yr Academi Meddalwedd Genedlaethol<sup>101</sup> ar gyfer sgiliau datblygu meddalwedd.

172. Mae'r tîm Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol wedi gweithio gyda Sefydliad Cymru'r Gyfraith ers 2012 i hyrwyddo'r proffesiwn cyfreithiol a chodi ymwybyddiaeth o heriau a chyfleoedd tueddiadau byd-eang, megis digideiddio y bydd y proffesiwn yn eu hwynebu.

173. Mae'r tîm wedi mynd ati i hysbysu'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru o'r cymorth sydd ar gael gan sefydliadau academaidd a'r llywodraeth.

<sup>97</sup> Canolfan Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Prifysgol De Cymru <http://cfps.southwales.ac.uk/>

<sup>98</sup> LTC4 <http://www.ltc4.org/>

<sup>99</sup> Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol <https://www.cilex.org.uk/>

<sup>100</sup> Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar (PgDip) <http://www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/course/bar-professional-training-course-pgdip>

<sup>101</sup> <http://www.cardiff.ac.uk/software-academy/about-us>

Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniad i Gymdeithas Cyfreithwyr Abertawe a'r Cylch mewn partneriaeth â Jon Howden-Evans, Pennaeth Academi Cyflogadwyedd Abertawe ym Mhrifysgol Abertawe yn 2015.

174. Mae hefyd wedi cyflwyno nifer o sefydliadau â'r Adran Masnach Ryngwladol (Masnach a Buddsoddi'r DU gynt) gan gynnwys Ysgol y Gyfraith Prifysgol Abertawe er mwyn helpu i hyrwyddo ei gwaith dramor, yn enwedig cryfhau'r cysylltiadau â Hillary Clinton ar ôl iddi dderbyn doethuriaeth er anrhydedd yn 2017.

## Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

### Cymorth Ymchwil a Datblygu

175. Mae SMART yn gyfres o raglenni sy'n rhoi cyngor a chymorth ariannol i fusnesau a phrifysgolion yng Nghymru i fasnacheiddio cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd. Mae SMART Innovation<sup>102</sup> yn cynnig:

- cyngor cyffredinol ac arbenigol ar ymchwil a datblygu
- ymgynghoriaeth dechnegol a gymorthdelir
- gwiriadau gweithgynhyrchu a dylunio
- cyngor ac archwiliadau Eiddo Deallusol

- rhai cynlluniau peilot arloesol, megis ein gwaith ar arloesedd agored i gwmnïau angori a chwmnïau mawr.

176. Cyflwynir SMART drwy lu o Arbenigwyr Arloesi yn y maes. Mae ganddi gyllideb o £19.6m dros oes y rhaglen (2015/16 – 2021/22). O'r swm hwn, daw £11.7m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, a £7.9m gan Lywodraeth Cymru.

177. Mae SMART Cymru<sup>103</sup> yn rhoi arian grant i fusnesau. Caiff symiau llai, fel arfer hyd at £25K ac yn aml yn gysylltiedig â thechnoleg newydd i gwmni, eu rhoi drwy daleb arloesedd. Caiff prosiectau mawr sy'n ymdrin ag ymchwil a datblygu arloesol, gwirioneddol eu cefnogi gan grantiau SMART Cymru. Gellir rhoi'r rhain ar gyfer unrhyw un o'r camau datblygu a gydnabyddir yn draddodiadol. Mae faint o gymorth a roddir a'r cyfraddau ymyrryd yn dibynnu ar y cam ymchwil a datblygu a maint y cwmni.

178. Mae SMART Expertise<sup>104</sup> yn cefnogi ceisiadau gan brifysgolion i gydweithredu â busnesau ar brosiectau ymchwil a datblygu. Mae angen i'r rhain fod yn gydweithrediadau dilys ag ymwneud busnes gweithredol ac arian cyfatebol sylweddol gan y sector preifat er mwyn sicrhau diddordeb masnachol cryf.

Allbynnau	
Nifer y busnesau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gefnogir.	332
Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau a gefnogir.	173
Nifer y busnesau a gefnogwyd i gyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad.	50
Nifer y busnesau a gefnogir i gyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni.	75
Nifer y patentau a gofrestrwyd ar gyfer cynhyrchion.	83
Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn arloesi neu brosiectau datblygu ac ymchwil	19,586,196

<sup>102</sup> SMART innovation [https://businesswales.gov.wales/expertisewales/sites/expertisewales/files/SMARTInnovation\\_E.pdf](https://businesswales.gov.wales/expertisewales/sites/expertisewales/files/SMARTInnovation_E.pdf)

<sup>103</sup> SMART Cymru [https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/documents/Growing%20a%20business/SMARTCymru%20Brochure%20Eng\\_growing.pdf](https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/documents/Growing%20a%20business/SMARTCymru%20Brochure%20Eng_growing.pdf)

<sup>104</sup> SMART Expertise <https://businesswales.gov.wales/expertisewales/smartexpertise>

## Arloesedd Cyfreithiol

179. Nododd Panel Cynghori'r Gweinidog ar Wasanaethau Ariannol a Phroffesiynol<sup>105</sup> Llywodraeth Cymru pa mor bwysig yw'r diwydiant gwasanaethau cyfreithiol yn 2013, ac mae wedi parhau i edrych o ddifrif ar ddatblygiadau technoleg er mwyn deall yr effaith bosibl ar fusnes y gyfraith.

180. Argymhellwyd cysyniad o ganolfan er arloesi ym musnes y gyfraith gan yr Athro Doolan yn ei adolygiad o'r sector cyfreithiol yng Nghymru yn 2015, a gomisiynwyd gan Weinidog Economi Llywodraeth Cymru ar y pryd, Edwina Hart.

181. Yn 2017, lansiodd Prifysgol Abertawe ei Chanolfan ar gyfer Arloesi ac Entrepreneuriaeth yn y Gyfraith<sup>106</sup> fel rhan o Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithredu'n agos â Phrifysgol Abertawe i hyrwyddo'r Ganolfan a chyfeirio busnesau yn y proffesiwn cyfreithiol ac yn fwy cyffredinol fel darpar gydweithredwyr a phartneriaid.

182. Mae'r Ganolfan yn ymateb i heriau a chyfleoedd sy'n deillio o natur newidiol y ffordd y darperir gwasanaethau cyfreithiol, gan gynnwys effeithiau technolegau megis deallusrwydd artiffisial, cadwyn bloc, contractio deallus a llwyfannau digidol sy'n cefnogi mynediad at gyfiawnder. Canolbwyntiodd cynhadledd a gynhaliwyd gan TechCyfreithiol Cymru ym mis Ionawr 2018<sup>107</sup> yn Abertawe ar yr heriau a'r cyfleoedd y gall technoleg eu cynnig ym maes gwasanaethau cyfreithiol.

183. Yn 2013, yn ystod Gŵyl Ddigidol flynyddol Llywodraeth Cymru, cynhaliodd y tîm Sector Gwasanaethau Ariannol a Chyfreithiol, gyda chymorth Gwasanaethau Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi, seminar ar y Cyfreithiwr Digidol.

184. Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Dechcyfreithiol wedi parhau; rhoddodd arbenigwyr mewn deallusrwydd artiffisial cyfreithiol o'r cwmni iManage gyflwyniad yn ystod yr Ŵyl Ddigidol yn 2017<sup>108</sup>, ac mae Canolfan ar gyfer Arloesi ac Entrepreneuriaeth yn y Gyfraith Prifysgol Abertawe yn noddi'r seminar ar wasanaethau cyfreithiol yn ystod Gŵyl Ddigidol eleni ym mis Mai 2018<sup>109</sup>.

## Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth

185. Ym mis Hydref 2017, lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei hymgyrch 'Legal Services are GREAT'<sup>110</sup> i dargedu cysylltiadau cryfach â marchnadoedd datblygol a sefydledig ledled y byd a selio enw'r DU am fod yn ganolfan gyfreithiol fwyaf blaenllaw'r byd.

186. Nod yr ymgyrch yw tynnu sylw at gryfderau cyfraith Cymru a Lloegr ac ymgorffori ac ymestyn cyrhaeddiad gwasanaethau cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y DU yn parhau i fod ar y brig o ran ymgyfreitha, datrys anghydfodau a chynnal busnes. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Masnach Ryngwladol i sicrhau bod y sector cyfreithiol yng Nghymru yn chwarae rhan flaenllaw yn yr ymgyrch, ac i lobïo dros ddefnyddio'r ymadrodd cyfraith 'Cymru a Lloegr' yn eu deunyddiau hyrwyddo yn hytrach na 'Cyfraith Loegr' sydd wedi cael ei ddefnyddio hyd yma<sup>111</sup>.

<sup>105</sup> Panel Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol <https://gov.wales/topics/businessandconomy/our-priority-sectors/financial-and-professional-services/financial-and-professional-services-sector-panel/?lang=cy>

<sup>106</sup> Canolfan ar gyfer Arloesi ac Entrepreneuriaeth yn y Gyfraith, Prifysgol Abertawe <http://www.swansea.ac.uk/law/ciel/>

<sup>107</sup> Cynhadledd TechCyfreithiol Cymru, 31 Ionawr 2018 <http://www.swansea.ac.uk/cy/y-gyfraith/techcyfreithiolcymru/>

<sup>108</sup> Robotics and Law: The future of AI in the legal sector, Gwyl Ddigidol 2016, <https://www.eventbrite.co.uk/e/robotics-and-law-the-future-of-ai-in-the-legal-sector-tickets-37060840973#>

<sup>109</sup> Panel Discussion: How digital technologies impact the professional services sector? <http://www.digital-festival.co.uk/events/digital-festival/agenda-cb9e948458e2445bb59b0f7e5654d773.aspx>

<sup>110</sup> Legal Services are GREAT <https://www.gov.uk/government/publications/legal-services-are-great>

<sup>111</sup> Cyfeiriwyd at 'Cyfraith Loegr' ar dudalen 3 [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/668334/legal-services-are-great-brochure.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/668334/legal-services-are-great-brochure.pdf)

187. Lansiodd ymgyrch 'This is Wales' yn 2016 gan Lywodraeth Cymru ac ers hynny mae dros 30 o gwmnïau – o bob maint ac o bob sector economaidd allweddol yng Nghymru – wedi cefnogi ac wedi hyrwyddo Cymru drwy gyfweiliadau wedi'u fflmio ac erthyglau ysgrifenedig. Yn seiliedig ar eu profiadau eu hunain ac yn eu geiriau eu hunain maent yn dweud wrth y byd beth yn union y gall Cymru ei gynnig i fusnesau. Y brif neges yw bod Cymru ar agor i fusnes ac yn gyrchfan fusnes wych i ddechrau, tyfu a buddsoddi ynddi.

188. Yn sgil pleidlais Brexit, mae'r ymgyrch yn cefnogi ymgais Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru i'r byd. Mae'r eiriolwyr yn cynnwys Aston Martin - un o'r cwmnïau proffil uchel diweddaraf i fuddsoddi yng Nghymru, cwmnïau sefydledig fel Admiral sy'n un o Gan Cwmni'r FTSE, cwmnïau byd-eang fel Airbus, GE Aviation, atyniadau llawn adrenalín fel Zip World a chwmnïau yn y sector gwasanaethau ariannol llewyrchus fel Deloitte, Target Group ac Eversheds Sutherland.

189. Maent yn ymddangos yn yr ymgyrch ochr yn ochr â chwmnïau cynhyrchu ffilm, arbenigwyr mewn bwyd a diod cartref, arweinwyr byd-eang ym maes uwch dechnoleg fel IQE, busnesau arloesi fel Riversimple, a chwmnïau technoleg ddatblygol arloesol fel Amplyfi, Bipsync a Disberse.

190. Maent i gyd yn gwmnïau hynod lwyddiannus ac maent yn sôn am y ffordd y maent wedi cael budd o fod wedi'u lleoli yng Nghymru, yr hyn a'u denodd i Gymru, sut maent wedi tyfu eu busnes yng Nghymru a pham y byddent yn annog eraill i ddod i Gymru. Ymhlith y rhesymau a nodwyd mae ansawdd y gweithlu, cysylltiadau â phrifysgolion da, lefelau cynhyrchiant uchel, rhwydweithiau busnes rhagorol, cyfleoedd i gydweithredu, seilwaith a chysylltiadau

trafnidiaeth da ac ansawdd bywyd, sydd oll yn cael eu crybwyll fel pwyntiau cadarnhaol da.

191. Mae'r ymgyrch gynhwysfawr ac integredig i ddenu mewnfuddsoddiad yn cynnwys gwefan newydd<sup>112</sup> a chylchgrawn busnes, sydd bellach yn ei ail flwyddyn, sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddiweddarau'n flynyddol sy'n rhoi trosolwg o Gymru, ei heconomi a chryfder y gwahanol sectorau a gefnogir gan gyfres o erthyglau gan fusnesau..

192. Y gynulleidfa darged ar gyfer yr ymgyrch yw busnesau cenedlaethol a rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn Llundain a'i chyffiniau a Chanolbarth Lloegr sydd am ehangu. Mae hefyd yn cyrraedd cynulleidfa fyd-eang drwy rwydwaith Llywodraeth Cymru o swyddfeydd dramor, sy'n ei gwneud yn bosibl i lenyddiaeth farchnata gael ei dosbarthu ledled y byd.

193. Yn ogystal â'r ymgyrch Masnachu a Buddsoddi, mae Busnes Cymru yn darparu adnoddau i hyrwyddo busnesau yng Nghymru. Mae Cyfeiriadur Busnesau Cymru<sup>113</sup> Busnes Cymru yn galluogi busnesau i hyrwyddo eu nwyddau, eu gwasanaethau a'u henw da i fusnesau eraill ac i ddefnyddwyr. Chwiliwch y Digwyddiadur<sup>114</sup> ar gyfer hyfforddiant sy'n gysylltiedig â busnes, gweithdai, cyfleoedd rhwydweithio, seminarau a mwy gan amrywiaeth o sefydliadau.

194. Mae'r cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol yn nodwedd amlwg ar wefan Busnes Cymru a ail-lansiodd yn ddiweddar<sup>115</sup>, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gyhoeddi cynnwys ategol ar TradeandInvest.wales<sup>116</sup> – gwefan mewnfuddsoddi Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn a gynigir gan ein sefydliadau academaidd, sy'n ofyniad hollbwysig i dwf busnesau cynhenid ac i sicrhau mewnfuddsoddiad.

<sup>112</sup> Gwefan Masnachu a Buddsoddi <https://tradeandinvest.wales/>

<sup>113</sup> Cyfeiriadur Busnesau Cymru <https://businesswales.gov.wales/business-directory/cy>

<sup>114</sup> Digwyddiadur Busnes Cymru <https://wales.business-events.org.uk/cy/>

<sup>115</sup> Y Sector Gwasanaethau Ariannol a Proffesiynol, Busnes Cymru <https://businesswales.gov.wales/financial-and-professional-services/sectors/legal-services>

<sup>116</sup> Y Sector Gwasanaethau Ariannol a Proffesiynol, Masnachu a Buddsoddi Cymru <https://tradeandinvest.wales/key-industries/financial-professional-services>

195. Sonnir am Eversheds Sutherland fel stori llwyddiant yn nhaflen mewnfuddsoddi 2018 Trade and Invest<sup>117</sup>. Caiff y cyhoeddiad hwn ei hyrwyddo'n rhyngwladol drwy ein rhwydwaith o swyddfeydd dramor ac mae ar gael ar ein gwefan masnach a buddsoddi.

196. Mewn partneriaeth â nifer o gyrff megis y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sefydliadau academiaidd a Chymdeithas y Cyfreithwyr aeth y tîm sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol ati i hyrwyddo sector gwasanaethau cyfreithiol Cymru yn ystod dathliad 800 mlynedd Magna Carta<sup>118</sup> yn Llundain yn 2015, ond canfu nad oedd fawr ddim awydd i ymgysylltu â'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru er mwyn iddo gymryd rhan.

197. Fel rhan o Wythnos Cymru yn Llundain, cynhaliodd y tîm sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol ar y cyd â Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas Caerdydd ddigwyddiad ar 28 Chwefror 2018 'Cardiff Capital Region: Bridging the skills gap for Financial, Legal and Professional Services'<sup>119</sup> gyda siaradwyr gan gynnwys Canolfan ar gyfer Arloesi ac Entrepreneuriaeth yn y Gyfraith Prifysgol Abertawe a LTC4.

198. Mae swyddogion y Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol wedi mynd ati i hysbysu'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru o'r cymorth sydd ar gael gan sefydliadau academiaidd a'r llywodraeth. Roedd hyn wedi cynnwys cyflwyniad i Gymdeithas Cyfreithwyr Abertawe a'r Cylch mewn partneriaeth â Jon Howden-Evans o Brifysgol Abertawe yn 2015.

199. Mae'r tîm Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol hefyd wedi mynd ati i dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i gwmnïau gwasanaethau cyfreithiol yng Nghynadleddau Sefydliad Cymru'r Gyfraith<sup>120</sup> ers 2012.

200. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi ymdrechion i ymgysylltu â busnesau gwasanaethau cyfreithiol yn Llundain drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru Llundain, a gynhaliodd ddigwyddiad fel rhan o Wythnos Cymru yn Llundain ar faterion sy'n effeithio ar y sector cyfreithiol yng Nghymru, a agorwyd gan y cyn-Gwnsler Cyffredinol Mick Antoniw AC<sup>121</sup>.

## **Cyllid ar gyfer Twf**

### **Cyllid Busnes**

201. Diben yr hyn a gynigir gan Gyllid Busnes Llywodraeth Cymru yw galluogi cwmnïau i fuddsoddi er mwyn creu cyfleoedd cyflogaeth newydd sy'n ychwanegu at GYG Cymru.

202. Mae cymorth ariannol yn ad-daladwy ar sail dim llog mewn rhandaliadau blynyddol/misol unwaith bod y prosiect wedi'i gwblhau, oni ellir dangos bod y prosiect yn symudol.

203. Gellir dadlau bod prosiect yn un symudol lle mae gwahaniaeth cost rhwng Cymru a lleoliad arall y tu allan i'r DU. O dan yr amgylchiadau hyn, gallwn liniaru'r costau yn amodol ar gydymffurfio â chymorth gwladwriaethol yr UE a'n terfyn uchaf o ran gwerth am arian ac ni fyddai'r dyfarniad yn ad-daladwy.

204. Mae rheoli a llywodraethu grantiau'n dda yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses arfarnu, cynhelir gwiriadau cyn dyfarnu arian grant ac fel rhan o'r prosesau monitro grantiau.

205. Mae nifer o gamau ynghlwm wrth y broses safonol o wneud cais o fewn Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru:

- Mae cwmni yn gwneud ymholiad.

<sup>117</sup> Masnachu a Buddsoddi Cymru [https://tradeandinvest.wales/sites/default/files/this\\_is\\_wales\\_2018.pdf](https://tradeandinvest.wales/sites/default/files/this_is_wales_2018.pdf)

<sup>118</sup> Uwchgynhadledd Fyd-eang y Gyfraith 2015 <http://magnacarta800th.com/events/the-global-law-summit/>

<sup>119</sup> Wythnos Cymru yn Llundain 2018 <https://walesweek.london/whats-on/skills-innovation>

<sup>120</sup> Cynadleddau Cymru'r Gyfraith <http://legalwales.org/conference.html>

<sup>121</sup> Seminar ar gyfraith Cymru a rhwydweithio, 8 Mawrth 2018

- Caiff yr ymholiad ei drosglwyddo i Reolwr Datblygu Busnes sy'n cysylltu â'r cwmni i drafod y prosiect.
- Bydd yn gofyn i'r cwmni roi amlinelliad lefel uchel o'r prosiect arfaethedig er mwyn gallu asesu sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi'r prosiect.
- Os oes modd ei gefnogi, byddai'n gofyn i'r cwmni wneud cais ffurfiol, gan ddarparu unrhyw dystiolaeth ategol angenrheidiol.
- Pan fydd cais wedi'i gwblhau'n llawn yn dod i law, bydd y Rheolwr Datblygu Busnes yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy a gwiriadau cefndirol er mwyn deall y cwmni, y prosiect a'r manteision arfaethedig i Gymru yn well.
- Cynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy drwy adolygu nifer o feysydd, gan gynnwys:
  - Gwybodaeth gorfforaethol a ddelir gan Lywodraeth Cymru
  - Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, e.e. ar wefannau megis 'Tŷ'r Cwmnïau', y 'Comisiwn Elusennau', yr 'Awdurdod Ymddygiad Ariannol' a gwefannau asiantaethau gwirio credyd, a thrwy chwilio ar y rhyngwyd. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dod yn aelod o gronfa ddata "CIFAS" yn ddiweddar lle y gellir gwirio gweithgarwch ynglŷn â thwyll.
  - Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, megis cynlluniau busnes, CVs, cyfrifon blynyddol a rhagolygon ariannol.
- Bydd y Rheolwr Datblygu Busnes yn cwblhau arfarniad ysgrifenedig o'r prosiect; bydd hyn yn cynnwys asesiad o werth am arian a risgiau allweddol y prosiect. Bydd hefyd yn cynnwys argymhelliad gan y Pennaeth Sector neu'r deiliad cyllideb perthnasol.

- Mae'r Panel Argymell Buddsoddi (cynigion gwerth £1m ac is) neu Fwrdd Cyngori Datblygu Diwydiannol Cymru (cynigion gwerth dros £1m) yn craffu ar achosion.
- Yna, caiff argymhelliad i gefnogi neu wrthod y cais, yn seiliedig ar yr argymhelliad gan yr uchod, ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth neu'r Prif Weinidog a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y prosiect.

206. Dylai ceisiadau am Gymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ddangos y canlynol:

- Mae'r cynllun busnes yn fasnachol hyfyw.
- Mae'r cynnyrch / gwasanaeth a gynigir yn glir.
- Mae cyfle clir yn y farchnad yn y DU a / neu'n rhyngwladol.
- Ceir tîm rheoli cadarn sy'n gallu cyflawni'r cynllun.
- Mae cyllid arall yn cael ei fuddsoddi gan y busnes neu o ffynonellau eraill gan na fyddai Llywodraeth Cymru yn mynd dros 50% o gyfanswm y buddsoddiad sydd ei angen.
- Rhoddir esboniad clir pam y byddai cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl i'r prosiect fynd yn ei flaen, neu sail resymegol y byddai'r cyllid yn galluogi'r cwmni i gyflawni'r cynllun yn gynt.
- Mae'r swm y gwneir cais amdano yn rhoi gwerth am arian o ran budd economaidd i economi Cymru.

207. Caiff taliadau eu gwneud mewn rhandaliadau dros oes y prosiect yn erbyn cerrig milltir sy'n ymwneud â nifer y swyddi, gwariant cyfalaf a gwariant ar gyflogau gyda'r taliad terfynol yn cael ei wneud pan fydd yr holl swyddi wedi'u creu, pan fydd yr holl wariant cyfalaf wedi'i wneud a phan fydd yr hyn sy'n cyfateb i ddwy flynedd o gyflogau wedi cael ei dalu.

## **Banc Datblygu Cymru**

208. Mae Banc Datblygu Cymru, sydd â'i bencadlys yn y gogledd, yn elfen greiddiol o bolisi economaidd Llywodraeth Cymru a'i gyflawni, ac mae wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb; y strategaeth genedlaethol a'r cynllun gweithredu economaidd.

209. Effeithiau ac allbynnau allweddol y Banc Datblygu fydd:

- Cynyddu lefelau buddsoddi i £80m y flwyddyn o fewn pum mlynedd. Buddsoddodd £67m mewn BBaChau yng Nghymru yn 2017/18 (£56m yn 2016/17).
- Cyflawni isafswm targed o 1:1.15 Trosoledd gan y Sector Preifat.
- Rhoi cymorth buddsoddi uniongyrchol i economi Cymru gwerth dros £1b dros bum mlynedd drwy fwy o gynhyrchion buddsoddi i BBaChau a rheoli mentrau trawsadrannol megis cynllun 'Cymorth i Brynu'.
- Cynyddu nifer y swyddi sydd wedi'u creu ac wedi'u diogelu i fwy na 5,500 y flwyddyn erbyn 2021/22 (3,900 yn 2017/18).
- Cynyddu faint o gyllid a ddarperir i ficrofusnesau yn sylweddol.
- Darparu gwasanaethau rheoli buddsoddi a gwasanaethau cymorth cost-effeithiol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.
- Gweithio gyda'r SYG (Casnewydd) a phrifysgolion yng Nghymru i greu Uned Gudd-wybodaeth, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o anghenion cyllid busnesau Cymru a dylunio cynhyrchion yn briodol.
- Rhoi gwasanaeth gwerth am arian i'w randdeiliaid.

## Casgliadau

210. Mae'r proffesiwn cyfreithiol yn wynebu newid na welwyd ei debyg o'r blaen o ganlyniad i ddatblygiadau mewn technoleg, effaith newydd-ddyfodiaid i'r farchnad, disgwyliadau cwsmeriaid sy'n newid yn gyflym o ran y gwasanaethau y maent yn eu cael, a heriau gadael yr UE.

211. Wrth hyrwyddo cryfder a sefydlogrwydd y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru a sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ffyniant Cymru, mae'r newidiadau hyn nid yn unig yn creu heriau, maent hefyd yn cynnig cyfleoedd sylweddol o bosibl.

212. Rydym yn cefnogi cynrychiolaeth y diwydiant wrth barhau â'i ymdrechion i helpu'r proffesiwn i ymateb i'r newidiadau hyn, ac rydym yn mynd ati i hyrwyddo sector cyfreithiol Cymru a manteision fframwaith cyfraith Cymru a Lloegr fel fframwaith cyfreithiol.

213. Drwy gael y proffesiwn cyfreithiol i fabwysiadu technolegau sy'n datblygu, a denu cwmnïau technoleg arloesol i dyfu ecosystem dechnolegol Cymru, byddwn yn sefydlu Cymru yn rhyngwladol fel canolfan rhagoriaeth ym maes arloesedd cyfreithiol. Mae'r Ganolfan ar gyfer Arloesi ac Entrepreneuriaeth yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe, a rhaglenni arloesi eraill gan ein sefydliadau addysg bellach ac uwch yn rhan bwysig o gyflawni'r nod hwn. Rydym yn annog y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru i fynd ati i ymgysylltu â sefydliadau academiaidd er mwyn cefnogi'r broses o fabwysiadu'r datblygiadau arloesol hyn yn ehangach.

214. Mae arferion busnes modern a newid technolegol yn sbarduno proses o gydgyfeirio ac ymdoddi o ran y ffiniau traddodiadol rhwng sectorau. Yn erbyn y cyd-destun newydd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull gweithredu

drwy ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi sy'n cydnabod sectorau thematig. Mae hyn yn cynnwys 'gwasanaethau masnachadwy', sy'n gyson â gweddill gwasanaethau cenhedlaeth nesaf y DU, y mae gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol busnes ehangach yn rhan ohonynt.

215. Yn fwy cyffredinol, mae ein cymorth i fusnesau bellach yn cael ei roi o safbwynt newydd, a roddir gan ein Meysydd Gweithredu sy'n ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd y mae pob busnes yn eu hwynebu wrth geisio cynnal ei hun, cystadlu a thyfu at y dyfodol. Mae'r rhain yn berthnasol i fusnesau gwasanaethau cyfreithiol, yn enwedig o ran y gofyniad arnynt i arloesi a manteisio ar dechnolegau digidol newydd wrth ddarparu eu gwasanaethau ac wrth gyrraedd marchnadoedd newydd.

216. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, gan gynnwys annog cwmnïau cyfreithwyr yng Nghymru i fod yn rhan o weithgarwch caffael yn y sector cyhoeddus, a chodi proffil Cymru fel cyrchfan i gwmnïau cyfreithwyr yn ein marchnad ddomestig yn Llundain ac yn rhyngwladol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r proffesiwn yng Nghymru drwy weithio gyda chyrff y diwydiant a sefydliadau academiaidd.

217. Yr allwedd i lwyddiant y proffesiwn yn y dyfodol yw sicrhau bod y sgiliau a'r llwybrau datblygu cywir ar waith i'w alluogi i ymaddasu at y newidiadau bythfyrth yn y farchnad a bod yn ddigon ystywyth i fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y newidiadau hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ein darparwyr addysg i sefydlu cyrsiau megis LTC4 yng Nghymru, a byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau academiaidd a'r proffesiwn i hyrwyddo datblygiad sgiliau.